tafod elái

TACHWEDD 2009

Rhif 242

Pris 80c

Hoffi'r Oerfel!

Beth sy'n gwneud i grwt a chroten o Greigiau fynd i'r gwledydd oer? Ar ôl 9 mis yn yr Antarctic, fel meddyg ar y llong ymchwil RSS James Ross Clark, daeth Nerys Lewis, (Heol Pant-y-Gored, Creigiau) yn ôl ym mis Gorffennaf. Ac wedyn, codi pac eto a mynd i'r cap iâ yn Greenland am fis, fel meddyg i'r grŵp ymchwil rhyngwladol o Brifysgol Copenhagen sy'n drilio trwy'r iâ. 'Roedd yn -23'C, ac 'roedd Nerys yn cysgu mewn pabell! Roedd mor oer ni allai awyren Hercules yr UDA godi o'r iâ heb rocedi ychwanegol ar yr adenydd. Wedyn, ym mis Awst, ail-ymunodd Nerys â'r llong, ac fe dreuliodd 6 wythnos yn yr Arctic. Bydd yn mynd yn ôl i'r Antarctic fis Rhagfyr ar yr RSS James Cook.

Ond mae'n amlwg nad ydy'r Lewisiaid yn teimlo'r oerfel. Mae Geraint, brawd Nerys,

sydd hefyd yn feddyg yn gweithio i Ymddiriedolaeth Nuffield yn Llundain, wedi derbyn gwahoddiad oddi wrth llywodraeth Canada i fod yn aelod o grŵp o arbenigwyr sy'n cynghori'r llywodraeth ar iechyd cyhoeddus yr Inuit (gynt yn "Escimos"). Mae hyn yn golygu gwneud 5 ymweliad, wythnos o hyd, i Nunavut (gynt y "North West Territories") - gwlad cymaint ag Ewrop ond gyda phoblogaeth o ddim ond 31,000 - yr un faint ag Aberdâr!). Roedd yn gymhedrol fwyn pan aeth Geraint yno yn yr haf, ond bydd yn -40'C pan aiff yno ym mis Ionawr.

Cerflun Newydd

Beth yw barn darllenwyr Tafod Elái am y darn mawr o ddur coch sydd wedi ymddangos yn ddiweddar ar y cylchdro oddiar yr A470 ym Mhontypridd?

Darn o gelf i goffau gweithfeydd cadwyni Brown Lennox, pont Pontypridd a phont Brunel yw e, medden nhw. Yn ôl pob son fe gostiodd dros £100,000 ac fe gyfrannodd Cyngor y Celfyddydau a Chyngor Rh.C.T. tuag at y gost.

Prynwch eich copi o

Tafod Elái

£8 am y flwyddyn

Oddi wrth eich dosbarthwyr lleol neu 029 20890040

Taith Ysgol Sul Tabernacl i'r Fferm



tafod elái

GOLYGYDD
Penri Williams
029 20890040

HYSBYSEBION
David Knight 029 20891353
TRYSORYDD
Elgan Lloyd 029 20842115
CYHOEDDUSRWYDD
Colin Williams
029 20890979

Cyhoeddir y rhifyn nesaf
ar 4 Rhagfyr 2009
Erthyglau a straeon
i gyrraedd erbyn
24 Tachwedd 2009

Y Golygydd
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040
e-bost
pentyrch@tafelai.net

Tafod Elái ar y wê
http://www.tafelai.net

Argraffwyr:
Gwasg
Morgannwg
Castell Nedd SA10 7DR
Ffôn: 01792 815152

Gwasanaeth addurno, peintio a phapuro

Andrew Reeves

Gwasanaeth lleol ar gyfer eich cartref neu fusnes

Ffoniwch

Andrew Reeves
01443 407442
neu
07956 024930

I gael pris am unrhyw waith addurno

CLWB Y DWRLYN

CYLCH CADWGAN

YR ATHRO PRYS MORGAN
yn siarad ar y testun
'Enwau Teulu'r Cymry'

yn Neuadd yr Eglwys,
Creigiau.
Nos Wener, Tachwedd 27 2009
am 8.00pm

Cydnabyddir cefnogaeth
yr Academi Gymreig

Acapela Pentyrch

Cyngherddau i'ch dyddiadur
(Bar gyda trwydded lawn)

27ain Tachwedd **Henry Priestman @ Acapela** £10 - £8
28ain Tachwedd **"Catrin Finch" Goldberg.**
30ain Tachwedd **"Asere" Cerddoriaeth Byd** £12 - £10
12ed Rhagfyr 4yh **"Carolau y Nadolig"** £5
(Gwin a Mins pei yn y pris)
13eg Rhagfyr 4yh **"PAVAO"**
Clasurol £12- £10 (Gwin a Mins pei yn y pris)
Tocynnau ar gael o 01446 799100
neu **www.acapela.co.uk**

GWERSI PREIFAT CAERDYDD

Ystod eang o bynciau
yn cynnwys:
Cyngor Gyrfaol,
Technegau Gwrandawiad,
Technegau Cyfweliad,
Siarad Cyhoeddus,
Sgiliau Cyflwyno,
Cymraeg, Saesneg.

FFONIWCH 07931541372

Cydnabyddir cefnogaeth

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru Sponsored by Welsh Assembly Government

BWRDD YR IAITH GYMRAEG • WELSH LANGUAGE BOARD

www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

MERCHED Y WAWR
Cangen y Garth

BanglaCymru
gyda Wil Morus Jones

Neuadd Pentyrch
am 8.00yh
Nos Fercher
11 Tachwedd

Am ragor o fanylion,
ffoniwch: 029 20892830

Ysgol Pont Siôn Norton

Priodas
Llongyfarchiadau i Miss Michelle Davies ar ei phriodas yn ystod yr haf i Mr James Barry. Llongyfarchiadau i'r ddau a dymuniadau gorau i Mrs Barry.

Gwasanaeth Cynhaeaf
Cynhaliwyd ein Gwasanaeth Cynhaeaf ar Ddydd Iau, Hydref 22ain. Mr A. Coleman oedd y gŵr gwadd ac fe ddosbarthwyd y ffrwythau a'r llysiau i gartrefi henoed lleol. Aeth y casgliad eleni tuag at elusen BanglaCymru.

Llangrannog
Aeth criw hwyliog o blant Blwyddyn 5 a 6 i Langrannog am benwythnos ar Hydref 9fed. Cawsant benwythnos difyr a blinedig. Diolch i staff yr ysgol a fu'n gofalu amdanynt yn y gwersyll.

Ymweliadau Addysgol
Fe aeth disgyblion Blwyddyn 1 ar daith i Gastell Caerffili fel rhan o'u gwaith ar y thema 'Adeiladau'.

Bu Blwyddyn 5 ar ymweliad â'r Big Pit ym Mlaenafon ar Ddydd Gwener, Hydref 23ain.

Michael Harvey
Aeth disgyblion Blwyddyn 5 a 6 i Ganolfan Gydol Oes Garth Olwg i wrando ar Michael Harvey yn adrodd straeon amrywiol. Roedd pawb wedi mwynhau. Yn dilyn yr ymweliad fe ddaeth Michael Harvey i'r ysgol i adrodd mwy o straeon difyr i'r plant.

Cylchgronau'r Urdd
Croesawyd Manon Llwyd i'r ysgol ar Hydref 2ail i siarad gyda'r disgyblion am gylchgronau'r Urdd ac i greu ymwybyddiaeth y disgyblion o'r gwahanol gylchgronau sydd ar gael yn fisol.

EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol:
Loreen Williams

Prysurdeb ym myd y Cerdd Dant
Mae Parti'r Efail a Chôr Merched y Garth yn brysur yn paratoi ar gyfer yr Ŵyl Gerdd Dant yng Nghasnewydd ar Nos Sadwrn, Tachwedd 14eg. Pob hwyl i Menna a Gavin a holl aelodau'r ddau gôr.

Mae aelodau Parti'r Efail wedi eu gwahodd i ganu yn siop T.M. Lewin adeg agoriad swyddogol y siop yng Nghanolfan newydd Dewi Sant yng Nghaerdydd. Byddant hefyd yn dathlu'r Nadolig yn Eglwys Sant Teilo yn Sain Ffagan nos Fercher, y nawfed o Ragfyr.

Côr Godre'r Garth
Bydd Côr Godre'r Garth yn dathlu pen-blwydd yn 35 oed gyda chyngerdd yng Nghapel y Tabernacl, yr Ais, Caerdydd ar nos Sadwrn, Hydref 31ain. Fe fydd enillydd y Rhuban Glas, y tenor Aled Wyn Davies a'r offerynnwr taro, Dave Dunsford yn ymuno â'r côr yn y dathlu.

Mae'n gyfnod prysur i'r côr gan eu bod yn ymddangos mewn cyngerdd yn Neuadd Dewi Sant ar Dachwedd 24ain. Byddant hefyd yn cynnal eu Cyngerdd Nadolig yn Y Tabernacl yn Efail Isaf ar Ragfyr 20fed.

Roedd yn noson arbennig o dda i gorau'r pentref ar Nos Wener, Hydref 16. Yn Eisteddfod y Cymoedd yn Ystrad Mynach fe gipiodd Côr Godre'r garth y wobr gyntaf a Pharti'r Efail yr ail wobr yng nghystadleuaeth y Corau. Llongyfarchiadau i'r ddau gôr.

Y TABERNACL
Priodas
Llongyfarchiadau gwresog i Llio Penri a Mark Ellis ar eu priodas yn Y Tabernacl ar Ddydd Sadwrn Hydref 3ydd. (Mae adroddiad llaw yng ngholofn Pentyrch).

Trip yr Ysgol Sul
Arch Noa fu cyrchfan trip Ysgol Sul y Tabernacl, Efail Isaf eleni. Nid Ararat oedd y lleoliad a diolch byth mai heulwen braf a gawsom ac nid dilyw mawr! Cafwyd diwrnod arbennig ar gyrion Bryste yn ymweld ag anifeiliaid di - ri. "*Er fy mod wedi bwydo wŷn bach ar ffferm Nain a Taid. Llety yn Stiniog... fe wnes i fwynhau rhoi diod i'r wŷn bach gwlanog yn fawr."* oedd ymateb Efa Rowlands ar ôl y trip. Ac ymateb ei chwaer fawr Begw oedd *"Nid wyf yn hoff iawn o afael mewn anifeiliaid nad wyf yn gyfarwydd â nhw fel arfer ond fe wnes i fwynhau gafael mewn 5 gwahanol iâr fach cyn i ni adael am adref."*

Tra mai uchafbwynt rhai oedd y picnic, gweld llygad yn lygad a theigr oedd uchafbwynt eraill, ond nododd Aneurin Morse mai bwydo gwair i'r lamas oedd ei uchafbwynt ef.

Diolch i bawb am eu holl gwaith gyda'r trip. Lluniau ar dudalen 1 a 4.

Gwasanaeth Cynhaeaf
Roedd Sul, 18fed o Hydref yn Sul Diolchgarwch yn Y Tabernacl. Heulyn Rees oedd llywydd yr oedfa a bu plant yr ysgol Sul ac aelodau Teulu Twm yn cyfrannu i'r gwasanaeth. Fe ddaeth y plant ag anrhegion o fwydydd tun a bisgedi. Cyflwynir y bwyd yma mewn hamperi lliwgar i bobl ifanc anghenus yr ardal cyn hir. Ar ôl yr oedfa aeth y gynulleidfa i neuadd y Pentref i gael paned ac i siopa yn Siop Tylwyth Teg, ein siop fasnach deg. Diolch i athrawon yr Ysgol Sul ac arweinwyr Teulu Twm am hyfforddi'r plant.

Grŵp Lesotho
Erbyn hyn, o dan arweiniad Elenid Jones mae'r cysylltiad rhwng ein partneriaid yn Lesotho a ninnau yn datblygu. Mae'n fwriad gan rai o aelodau'r grŵp i ymweld â'r wlad yn ystod y Gwanwyn nesaf. Cysylltwch ag Elenid os hoffech fod yn rhan o'r daith.

Y Ganolfan Newydd
Disgwylir y bydd gwaith adeiladu'r Ganolfan Newydd a fydd yn cymryd lle'r festri, yn dechrau ym mis Tachwedd. Bydd y gwaith adnewyddu'n parhau am oddeutu saith mis.

Merched y Capel
Dydd Mercher, Hydref 21ain fe deithiodd nifer o ferched y capel tua'r gorllewin i ymweld â Ffatri Siocled Pemberton yn Llanboidy. Cawsom ein tywys o amgylch y ffatri a gweld y merched wrth eu gwaith yn paratoi'r siocled blasus, a hynny i gyd â llaw. Ar ddiwedd y daith cawsom gyfle i addurno un siocled bach a bwyta'r "wledd" nes bod ein cegau a'n bysedd yn un "slwdj" gwlyb, blasus a hyfryd!

Ar ôl cael paned yn y caffi aethom ymlaen i dref Arberth i gael gwledd o fath arall yn ymweld â'r siopau dillad a'r siopau anrhegion di-ri. Diolch o galon i Judith am drefnu'r daith. Ein cyfarfod nesaf fydd ein cinio Nadolig yn y Llew Coch ym Mhendeulwyn ar y cyntaf o Ragfyr. Cysylltwch â Ros Evans os ydych am ymuno yn y wledd

Trefn yr oedfaon mis Tachwedd
Tachwedd 1. Oedfa Gymun o dan ofal ein Gweinidog
Tachwedd 8. Y Parchedig Aled Edwards
Tachwedd 15. Oedfa Deuluol
Tachwedd 22. Mr Geraint Rees

LLANTRISANT GROESFAEN MEISGYN

Gohebydd y Mis:
Margaret White

Mastermind Plant Cymru
Llongyfarchiadau i Rhys Lewis o'r Groesfaen a ddaeth yn ail agos, agos gan golli o 1 marc yn Mastermind Cymru. Roedd y rhaglen ar y teledu ganol Hydref. Mae Rhys yn ei flwyddyn gyntaf ym Mhlasmawr ac yn gyn ddisgybl o ysgol y Creigiau. Mae'n siwr fod ei rieni Tracy a John Lewis yn falch iawn.

Llawdriniaeth yn Llundain
Yn yr wythnosau diwethaf mae Lara Brunt o'r Groesfaen, sy'n ddeg oed ac yn ddisgybl yn Adran Gymraeg Creigiau, wedi cael triniaeth ar ei chefn yn ysbyty Great Ormond Street. Mae hi'n gwella a bydd Phil a Josie ei rhieni yn falch o'i chael hi gartref eto.

Côr Ieuenctid Llantrisant
Mae'r Côr wedi bod yn brysur unwaith eto. Roedden nhw'n westeion arbennig yng nghyngerdd blynyddol Côr Meibion Morlais ar nos Sadwrn 10fed o Hydref. Cafwyd gwledd o ganu gan y Côr Meibion ond mwynheuodd y Côr Ieuenctid yn fawr glywed y dynion yn canu y gân fodern "That's not my name" gan y band The Ting Tings! Roedd Rhian Lewis y gantores ifanc yn westai arall ar y noson. Canodd y Côr Ieuenctid amrywiaeth o ganeuon Abba, O Nefol Addfwyn Oen a Glyndwr yn swynol dros ben. Daeth y gyngerdd i ben gyda'r Côr Ieuenctid yn canu 'Battle Hymn of the Republic' gyda Côr Meibion Morlais a Rhian Lewis Roedd e'n brofiad gwych i'r bobl ifanc a byddan nhw'n ymddangos nesaf yn Neuadd Brangwyn gyda chôr y Ffilarmonig Abertawe a Cherddorfa Siambr Cymru ar nos Sadwrn 5ed o Ragfyr.

TONTEG A PHENTRE'R EGLWYS

Gohebydd Lleol:
Sylfia Fisher

Dydy'r Padocs, Pentre'r Eglwys ddim wedi bod y lle iachaf i fyw ynddo'n ddiweddar. Braf yw cael dweud bod Julie Waring, rhif 50 ac Illtud Deiniol, rhif 60 bellach yn gwella ar ôl cyfnod yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg.

Cartref newydd
Dymuniadau gorau a phob hapusrwydd i Margaret Knight yn ei chartref newydd yn Waterloo, ger Rhydri. Byddwn ni ddim yn anghofio amdanat er dy fod y tu allan i'n ffiniau!

Lansio Nofel Don Llewellyn



Priodas Llio Penri a Mark Ellis

Trip Ysgol Sul Tabernacl ar y fferm

Rhys Lewis o Groesfaen ddaeth yn ail yn ffeinal Mastermind Plant Cymru

Aaron, Tonyrefail, gyda'i fam, ei dad a'i frawd Ross pan aethant i ymweld â fe ym mis Gorffennaf.

Bywyd lliwgar Marrakesh

PENTYRCH

Gohebydd Lleol:
Marian Wynne

Y SWYDDFA BOST
Daeth cyfnod i ben yn y pentre' pan agorodd y swyddfa bost ei drysau am y tro olaf ddydd Mercher Hydref 21. Mae Glenys, y bostfeistres, wedi bod yn gofalu am y swyddfa ers 23 mlynedd. Roedd hi a Moira, ei chynorthwyydd, bob amser yn groesawgar a pharod i helpu, a dymunwn yn dda i'r ddwy gan ddiolch iddynt am eu gwasanaeth.

Chwithig fydd colli'r Swyddfa o'r safle presennol ond bydd y gwasanaeth yn parhau gan fod cownter wedi ei neilltuo ar gyfer y post yn siop Spar ar sgwâr y pentre'.

LANSIO LLYFR
Roedd y Clwb Rygbi dan ei sang nos Fercher, Hydref 14 ar gyfer lansio nofel gyntaf Don Llewellyn – 'The Kissing Gate'. Huw Llywelyn Davies oedd yn llywio'r gweithgareddau gydag anerchiad yn gyntaf gan John Edwards (Wenglish) ac yna gan y dyn ei hun, cyn i bawb gael y cyfle i weld ac wrth gwrs i brynu'r llyfr.

Noson hwyliog dros ben gyda theulu Don yn bresennol ynghyd â llu o ffrindiau o bell ac agos, a chynrychiolaeth dda o'r pentre' ei hun. Roedd nifer a fyddai wedi dymuno bod yn bresennol ond yn methu â dod wedi anfon gair i ddymuno'n dda - yn eu plith Rolf Harris, Philip Madoc, yr Athro Dai Smith a John Taylor.

Cyhoeddir y llyfr gan Wasg Dinefwr a'i bris yw £7.99. Hanes carwriaeth plentyndod adeg yr Ail Ryfel Byd yw cnewyllyn y nofel a cheir cyfle i gwrdd â chymeriadau difyr a hynod. I'r rhai sydd wedi clywed Don yn adrodd hanesion trigolion Pentyrch a'r cylch, mae'n siŵr y bydd ambell gyffyrddiad cyfarwydd. Profwch drosoch eich hun ac ewch allan i brynu'r llyfr!

FFARWELIO
Dymunwn yn dda i Delwyn Tibbott wrth iddo symud i'w gartref newydd yn Llandaf. Bu Delwyn yn byw yma ym Mhentyrch am gyfnod hir a gobeithiwn y bydd yn ymgartrefu'n ddedwydd yn Llandaf.

DYMUNIADAU DA
Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i ddwy o'r pentre' sydd newydd ddechrau ar eu cyrsiau coleg. Mae Rebecca John, Bryn Gwennol, wedi mynd i astudio Eidaleg ym Mhrifysgol Abertawe, ac Anna Rainford, Bron Haul, yn astudio Bioleg ym Mhrifysgol Bangor. Pob lwc i'r ddwy.

PRIODAS DDA
Llongyfarchiadau i Llio Penri, Pantbach, ar ei phriodas â Mark Ellis o'r Fenni ar 3ydd Hydref. Cynhaliwyd y gwasanaeth yng nghapel Tabernacl Efail Isaf cyn teithio i Lys Llansantffraed, Sir Fynwy, ar gyfer y wledd briodas. Mae'r ddau yn gweithio ym Mae Caerdydd, Llio ym maes cysylltiadau cyhoeddus a Mark yn y maes yswiriant masnachol. Aethant ar eu mis mêl i Barbados. Disgwyliant symud i fyw i Radyr yn fuan.

CYDYMDEIMLAD
Cydymdeimlwn gydag Allan, Eiry a Daniel Rochford yn dilyn marwolaeth mam Allan, a oedd yn byw ym Mhontypridd .

CLWB Y DWRLYN
Yn ôl i Glwb Rygbi Pentyrch aeth Clwb y Dwrlyn ar gyfer ail gyfarfod y tymor ym mis Hydref. Y tro hwn trefnwyd cwis. Gareth Roberts oedd y cwis-feistr ac roedd pum tîm yn cystadlu. Gydag enwau megis Praidd Bethlehem, Rocers Creigiau, Vote Lucy, Yr Hwch Goch a'r Ysgolheigion 'roedd yn amlwg bod y cystadlu yn mynd i fod yn frwd a digyfaddawd ac felly y bu. Yn y diwedd roedd y marciau yn hynod agos ond daeth dau dîm i'r brig sef Praidd Bethlehem a Vote Lucy.

Noson hwyliog iawn ym moethusrwydd estyniad y Clwb Rygbi. Diolch yn fawr i Gareth am osod y cwestiynau ac am lywio'r noson a chadw trefn yn feistrolgar.

DYWEDDIAD
Llongyfarchiadau i Hywel Roberts, Tŷ Cnau, ar ei ddyweddiad ag Elin Evans, Waunfawr. Derbyniodd Elin y fodrwy ar ôl cyrraedd y Gaiman, Patagonia.

Y Gornel Deithio

Bwrlwm – Camelod – Nadroedd yn dawnsio – Perlysiau – Sbeisys – Lampiau – Te – Carpedi – Cous-cous – Sudd Oren – Tagine – Bargeinio – Bwrlwm – Marrakesh!

Am le sydd yn fyd o wahaniaeth, ac o fewn pedair awr o Gymru, rhaid bod Marrakesh yn un o'r llefydd gorau i'w cael. Am ychydig o ddyddiau i ffwrdd, sy'n llawn bwrlwm a chyffro ac sy'n wahanol iawn i ddinasoedd Ewropeaidd, mae hi wir yn werth yr ymdrech i fentro i gornel yma'r byd. Nawr bod y cwmniau awyrennau rhad wedi ychwanegu'r ddinas at eu rhestr o leoliadau, dydy hi erioed wedi bod mor hawdd i ymweld â'r lle.

Mae Marrakesh wedi ei rhannu i mewn i ardaloedd gwahanol, ond am brofiad bythgofiadwy, arhoswch yn yr hen *Medina,* yng nghanol y strydoedd cul, llawn lliw a bargeiniau - profiad hudolus i'ch synhwyrau. Dyma'r ardal fwyaf boblogaidd yn Marrakesh. Nid oes gwestai mawr yn y *Medina*, ond yn hytrach nifer fawr o *Riad,* hen dai traddodiadol wedi eu haddasu yn westai bach, llawn cymeriad. Mae popeth yn digwydd o amgylch yr hen sgwâr, *Jemaa el-Fna.* Mae'n hawdd iawn i'w gyrraedd o'r maes awyr, ar fws sy'n cymryd chwarter awr, ac yn sicr fe welwch chi ambell i gamel neu ddau yn ystod y daith! Wrth gyrraedd *Jemaa el-Fna* bydd eich synhwyrau yn cael eu deffro gan wres mawr yr anialwch; cyrn a drymiau arabaidd yn seinio; ceffylau a cherti yn mynd heibio; gwerthwyr yn bloeddio; a galwadau'r mosgiau. Bydd rhywun yn siwr o alw arnoch o'i stondin sudd oren i ddod i brynu diod, ac yn wir, ni ddylech adael Marrakesh heb ei flasu. Dyna'r diod gorau 'dw i erioed wedi'i flasu – oren mewn gwydryn: yn syml ac yn berffaith, ac am ddim ond ychydig o Dirham, nid oes ffordd well o gael seibiant o'r gwres.

Wrth gyrraedd cefn sgwâr *Jemaa el-Fna* fe ddewch at y *Souk*, y nefoedd i'r rhai ohonoch sy'n hoffi bargeinio. Gallwch ddod o hyd i bron popeth yma; melysion; persawr; gemwaith; carpedi; lampiau; te-botiau; esgidiau; sbeisys a llawer mwy. Mae'r lle yn llawn bywyd, gyda channoedd o bobl yn ceisio mynd trwy'r labrinth cul, rhai yn gwerthu, rhai yn prynu ac ambell un yn ceisio reidio ei asyn trwy'r canol. Byddwch yn siwr o golli eich hunan yn y *Souk*, am fod pob stryd yn edrych yn union yr un fath, ond fel arfer mae pobl yn ffeindio eu hunain yn cyrraedd yn ôl yn *Jemaa el-Fna.* Dyma'r lle hawsaf i leoli eich hunan, ac felly, os ydych yn mynd ar goll, gofynnwch i rywun am sut i gyrraedd *Jemaa el-Fna.* Os hoffech brynu par o sliperi neu ryw drysor bach arall, gwnewch yn siwr eich bod yn bargeinio. Byddwch fel arfer yn talu traean o'r pris gwreiddiol - ond, cofiwch fargeinio 'gyda gwen' er mwyn cadw'r gwerthwyr yn hapus!! Lluniau ar dudalen 4

TONYREFAIL

Gohebydd Lleol:
Helen Prosser
671577

Cydymdeimlad
Estynnir cydymdeimlad i Tina, Keely, Wesley a'r teuluoedd ar golli gŵr Tina a thad Keely a Wesley yn gwbl ddisymwyth. Bu Philip Greening yn gefnogwr brwd o addysg Gymraeg, gan anfon ei blant i Ysgol Gymraeg Tonyrefail ac Ysgol Gyfun Llanhari. Mae'r wyrion i gyd (Chloe, Liam a Harriet) yn ddisgyblion yn Llanhari ar hyn o bryd. Keely yw ysgrienyddes Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail. Roedd Phil i'w weld yn aml mewn gweithgareddau Cymraeg yn cefnogi'r plant a bydd pawb yn gweld ei eisiau yn fawr.

Croeso Adref
Croeso adref i Aaron Daye sy newydd ddychwelyd adref ar ôl treulio'r haf yn Biarritz ac yn Tuscany yn gweithio fel courier i Keycamp. "Gwnes i lawer o ffrindiau newydd a mwynhau'r profiad yn fawr – gan gynnwys dysgu ychydig o Ffrangeg, Eidaleg ac Iseldireg", meddai Aaron. Mae ei fam, Lorraine Day yn dweud bod y tŷ wedi bod yn llawer rhy dawel hebddo.

Gweithdai Bro Taf

Mae'r plant a'u hyfforddwyr wrthi'n brysur yn paratoi ar gyfer dau ddigwyddiad cyhoeddus – dawnsio yn agoriad siop grysau TM Lewin yng Nghanolfan Dewi Sant 2, a chystadlu yn yr Ŵyl Gerdd Dant yng Nghasnewydd.

RHONDDA CYNON TAF

Uned Gwasanaethau'r Gymraeg
Cyngor Rhondda Cynon Taf
Tŷ Trevithick, Abercynon CF5 4UQ
'01443 744069
Swyddogiaith@rhondda-cynon-taf.gov.uk

HYRWYDDWR Y GYMRAEG

Mae Mike Keating, y Cyfarwyddwr Addysg, wedi derbyn y cyfrifoldeb am Hyrwyddo'r Gymraeg yn ardal Rhondda Cynon Taf. Mae hyn yn dipyn o sialens gan fod y Cyngor yn cyflogi 14,000 o staff mewn 75 o unedau busnes.

CYNLLUN IAITH 2009-2012
Da yw nodi bod Cynllun Iaith y Cyngor wedi ei gymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg erbyn hyn. Bwriad y swyddogion yw canolbwyntio ar farchnata'r gwasanaethau sydd yn cael eu darparu yn barod a chynyddu'r nifer o bobl sydd yn gofyn am gyswllt trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae mesur a darganfod sgiliau iaith y staff yn rhan allweddol o hyn fel ein bod yn gallu ymateb yn ysgrifenedig, ar lein, ar y ffôn ac mewn person. Cofiwch ***'Mae Gen ti Ddewis'*** a gofynnwch am siaradwr Cymraeg i ddelio gyda'ch ymholiad. Gweler yr hysbyseb yn y rhifyn yma o'r papur bro.

OFFER CYFIEITHU
Os y'ch chi'n chwilio am offer cyfieithu ar gyfer eich sefydliad neu gorff, cysylltwch ag Eirian Glynne Lewis yn yr Uned Gymraeg 01443 744160.

CLICIWCH
Am fwy o wybodaeth am Gyngor RhCT cliciwch ar y dewis 'Cymraeg' ym mhen uchaf y dudalen ar www.rhondda-cynon-taf.gov.uk.

GWEINI GWLEDD, NID GWENWYN
Os hoffech chi fwynhau'ch twrci heb boeni am anrheg Nadolig annisgwyl, dilynwch y canllawiau yn rhifyn 18 o'r cylchlythyr 'Cadw Cegin Lân' ar gyfer coginio twrci a dofednod Nadolig – fe allan nhw achub eich Nadolig drwy'ch helpu chi i osgoi gwenwyn bwyd. Gallwch gysylltu â siaradwr Cymraeg yr Adran – Rhyd Williams – 01443 425567.

SWYDDI
Mae Cronfa Swyddi'r Dyfodol yn chwilio am unigolion sydd yn medru'r Gymraeg i weithio gyda Chyngor RhCT. Y gobaith yw croesawu unigolion rhwng 18-24 mlwydd oed sydd ar fudd-dal ac sy'n awyddus i ddefnyddio'r Gymraeg o ddydd i ddydd yn y gwaith. Cytundeb am 6 mis sydd yn cael ei gynnig ac fe fydd yna opsiwn i ddysgu gyrru yn rhad ac am ddim. Cysyllter yn y lle cyntaf â Steffan Gealy ar 01443 744079.

Menter Iaith Rhondda Cynon Taf

Menter Iaith Rhondda Cynon Taf
Llawr Cyntaf, 9 Y Stryd Fawr,
Pontypridd. CF37 1QJ
01443 407570
www.menteriaith.org

TEBOT PIWS
Nos Wener Tachwedd 20fed. 7.30 Bydd yr hen rocars Tebot Piws yn perfformio gyda Huw M yn Theatr Garth Olwg. Tocynnau'n £9.50 ac ar gael nawr o'r ganolfan. Archebwch yn fuan, maen nhw'n diflannu'n gyflym.

CYFARFOD BLYNYDDOL Y FENTER
Bydd y cyfarfod eleni am 6.30 nos Wener, Tachwedd 20fed yn Ystafell Weithgareddau Garth Olwg (ger y caffi)
Arhoswch ymlaen wedyn i weld
Y TEBOT PIWS A HUW M yn y theatr.
A'r diwrnod wedyn.....

PARTI NADOLIG Y PORTH
Dydd Sadwrn Tachwedd 21ain. 11.00yb tan 4.00 yp. Parc Treftadaeth y Rhondda, Trehafod, Porth.

DRAMA DÂR YN AIL GYCHWYN
Bydd cynllun drama llwyddiannus y Fenter yn ail gychwyn nos Lun, Tachwedd ail. Eleni bydd y cynllun yn cael ei symud i ganolfan yr Urdd, Stryd y Gwynt, Aberdâr. Mae pris y sesiynau yn aros yr un fath sef £4 ond rhaid archebu'ch lle o flaen llaw. Bydd sesiwn i blant dosbarth Derbyn, 1, 2 a 3 yn cychwyn am 4.15, a sesiwn plant dosbarth 4,5, a 6 am 5.00. Os nad ydych wedi derbyn ffurflen archebu o'r ysgol gynradd eto, yna cysylltwch â swyddfa'r Fenter er mwyn archebu.

STAFF NEWYDD
Croeso i Catrin Reynolds sydd newydd gychwyn yn ei swydd fel swyddog gweithgareddau teulu'r Fenter. Mae hi'n cymeryd lle Vicky Pugh sydd bellach yn swyddog datblygu gyda MYM. Pob hwyl i Vicky yn y dyfodol a chroeso twymgalon i Catrin

5 X 60 – CHWARAEON
Llongyfarchiadau i Bethan Williams a fu'n gweithio yn Boarders, Llantrisant, sydd wedi ei hapwyntio yn swyddog chwaraeon 5 x 60 yn ysgolion Y Cymer a Rhydywaun. Prif swyddogaeth Bethan fydd hybu gweithgareddau hamdden a chwaraeon tu allan i oriau ysgol. Mae'n ymuno gyda Gethin Smart sy'n gweithio yn ysgol Llanhari.

'Disgwyl ein hystâd'

Dyna oedd y testun gogleisiol a ddewisodd y Cynghorydd Cennard Davies o Dreorci i'w ddarlith yng nghinio Cronfa Glyndŵr yr Ysgolion Cymraeg nos Sadwrn, 17 Hydref. Daeth arwyddocâd y testun yn eglur wrth iddo olrhian hanes yr ymgyrchu dros sefydlu ysgolion cyfrwng Cymraeg yng nghymoedd y Rhondda – y rhieni'n brwydro mewn ffydd bod ganddynt hawl i ddisgwyl i'r system addysg eu cynorthwyo i drosglwyddo'r iaith a'i diwylliant, ein hetifeddiaeth, yn ddiogel i genedlaethau'r dyfodol. Talcen caled oedd yn wynebu'r ymgyrchwyr cynnar yn y 1940au pan ystyrrid y Gymraeg yn rhywbeth oedd yn gwahanu pobl ac yn rhwygo cymdeithas yn hytrach na'i huno. *"Don't you realise there's a war on?"* oedd mantra'r gwrthwynebwyr!

Serch hynny, yn ystod y chwedegau a'r saithdegau, yn sgil yr ymgyrchu cyson a welwyd yn lleol gan rieni ac ysgolion unigol, gwelwyd twf aruthrol yn nifer yr ysgolion Cymraeg yn yr hen Forgannwg. Ond, meddai Cennard, er gwaethaf unrhyw lwyddiant ymddangosiadol, mae 80% o blant RhCT, er enghraifft, yn dal yn ddi-Gymraeg, ac mae lle i boeni bod y math cynnar o ymgyrchu wedi lleihau,. Nid dyma'r adeg i laesu dwylo, felly. Mae mudiadau fel RhAG a Chronfa Glyndŵr yn gwneud gwaith gwych, meddai, ond mae mawr angen ategu'r gwaith hwnnw ar lawr gwlad.

Gyda'r twf yn nefnydd y Gymraeg, yn enwedig ym myd addysg, mae prinder Cymry Cymraeg i ymgymryd â'r amrywiol swyddi sy'n codi – arweinwyr cylchoedd meithrin, cynorthwywyr dosbarth, ysgrifenyddion ysgol ac athrawon mewn rhai pynciau e.e. gwyddoniaeth, ieithoedd modern a Saesneg. Yn y 60au roedd cyrsiau dwys ar gael i droi'r di-Gymraeg yn bobl gymwys i lenwi'r swyddi hyn. Nawr, mae gennym 6 Chanolfan Cymraeg i Oedolion gwych yng Nghymru ond mae prinder arian yn peri na all yr Awdurdodau Addysg Lleol noddi cyrsiau o'r fath fel y gwneir yng Ngwlad y Basg. Rhaid newid hyn, meddai.

Gwnaeth apêl ar i garedigion y Gymraeg o bob tuedd wleidyddol ystyried sefyll etholiad i fod yn gynghorwyr – neu o leiaf roi pwysau ar eu cynghorwyr lleol. "Mae hyn yn arbennig o bwysig nawr," meddai, "gan ei bod yn statudol ofynnol i'r awdurdodau fesur y galw am addysg gyfrwng Cymraeg. Mae rhaid sicrhau bod y broses hon yn cael ei gweinyddu'n deg ac yn drylwyr ledled y wlad." Mynnai Cennard bod canlyniadau'r arolygon a wnaed yn barod yng Nghasnewydd, Wrecsam ac Abertawe yn arbennig o galonogol.

Mewn araith yn llawn hanesion difyr a ffraethineb, cafodd y gynulleidfa niferus fwynhad ac ysbrydoliaeth – a digon i gnoi cil arno. Y neges sylfaenol oedd ein bod, fel cenedl, yn dal i 'ddisgwyl ein hystâd', ond mai ofer disgwyl heb i ni ein hunain weithredu.

[Ceir gwybodaeth am Gronfa Glyndŵr yr ar www.cronfaglyndwr.net]

Dysgwyr Morgannwg

Mae tymor yr hydref yn mynd yn ei flaen ers rhyw dair wythnos bellach. Cyn dechrau'r tymor dysgu cafwyd noson wobrwyo yn y brifysgol. Noson oedd hon i wobrwyo dysgwyr fu'n llwyddiannus mewn arholiadau cyn gwyliau'r haf. Roy Noble oedd y gŵr gwadd a chawson ni sgwrs ddifyr iawn ganddo a braf oedd gweld cynifer o'n dysgwyr wedi dod i fwynhau'r achlysur.

Mae ein gweithgareddau misol yn mynd ymlaen o nerth i nerth. Erbyn hyn mae tri chlwb cinio gyda ni - ym Mhont-y-clun dydd Mawrth cynta'r mis yng nghaffi Just Because am 1 o'r gloch; Pen-y-bont - y trydydd dydd Mercher yn fisol ym mwyty'r Tymhorau, Coleg Pen-y-bont am 12 o'r gloch a Merthyr - dydd Sul ola'r mis yn nhafarn y Dic Penderyn am 1 o'r gloch. Mae tri grŵp darllen yn yr ardal hefyd - ym Mhen-y-bont bob yn ail fore Iau yn llyfrgell Coed Parc o 10-11; Hirwaun bob yn ail brynhawn Llun yn y YMCA o 2-3 ac un newydd yn llyfrgell Treorci bob yn ail ddydd Gwener o 11-12. Ddydd Mercher, 4 Tachwedd, ar ôl hanner tymor, bydd dau grŵp arall yn dechrau yn Gartholwg. Bydd grŵp i safon Hyfedredd rhwng 12 - 1 bob yn ail ddydd Mercher yn llyfrgell Gartholwg ac un arall i safon canolradd/Uwch o 1 - 2.

Ddydd Sadwrn 10 Hydref aeth criw ohonon ni i gerdded yn ardal Merthyr. William Jones oedd ein tywysydd a chawson ni daith hyfryd yn heulwen hydref o Gefn Coed y Cymer i'r eglwys yn Faenor a chael tipyn o hanes yr ardal hanesyddol ar y daith. Byddwn ni'n cerdded yn ardal Hirwaun fis nesa felly gobeithio gall rhai ohonoch chi ymuno â ni bryd hynny.

Dyn ni hefyd yn trefnu taith i'r Sioe Aeaf yn Llanelwedd ddydd Llun 30 Tachwedd - £16.00 yw'r pris yn cynnwys mynediad i'r sioe a bws. Os hoffech chi ddod gyda ni chysylltwch â fi cyn gynted â phosibl: smorgan2@glam.ac.uk 07990578407
Dyma restr o ddigwyddiadau:

TACHWEDD

2 Clwb darllen Hirwaun – YMCA 2:00 - 3:00
3 Clwb cinio Pont-y-clun – Caffi Just Because – 1:00
4 Clwb darllen – Safon HYFEDREDD Llyfrgell Gartholwg 12:00– 1:00. Safon CANOLRADD/UWCH Gartholwg 1:00 – 2:00
6 Paned a Chlonc – Amgueddfa ac Oriel Cwm Cynon Aberdâr 2:30
7 Bore Coffi, Capel y Tabernacl, Porthcawl - Cymdeithas Gymraeg Porthcawl 10:30
10 Noson yng nghwmni Gwilym Roberts – Canolfan Gymraeg Soar Merthyr Tudful –(Cymdeithas Gymraeg Soar) £2.00 7:30

Capel Salem, Tonteg

Mae'r Cwrs Alpha wedi dechrau ac fe'i cynhelir bob pythefnos yn y Festri. Fe'i cyflwynwyd fel ymateb i frwdfrydedd yr aelodau ifainc ond mae nifer ychwanegol wedi ymaelodi. Os ydych am ragor o fanylion cysylltwch â'n Gweinidog, Peter Cutts, ar y rhif 02920 813662.

12 Clwb darllen Pen-y-bont – Llyfrgell Coed Parc 10:00 – 11:00
13 Clwb darllen Treorci – Llyfrgell Treorci 11:00 – 12:00
13 Noson Gymdeithasol i ddysgwyr/ Social evening for learners yn neuadd y pentref Efail Isaf – Cymdeithas Gymraeg Llantrisant 7:30
14 Clwb cerdded – dechrau o faes parcio'r Llew Coch, Penderyn CF44 9JR 10.30
14 Ymweld â Wisgi Penderyn £3.50 - 3:00 rhaid cael enwau cyn 7/11/09
14 Noson werin grwydrol – dechrau am 9:00 yng ngwesty'r Imp, Merthyr Tudful – Menter Gymraeg Merthyr
16 Clwb darllen Hirwaun - YMCA 2:00 – 3:00
16 Barti Ddu sioe, Canolfan y Mileniwm, Caerdydd £12.00 7:00
18 Clwb cinio Pen-y-bont, coleg Pen-y-bont - rhaid ffonio i archebu lle - 12:00
18 Clwb darllen – safon Hyfedredd – llyfrgell Gartholwg 12:00 – 1:00. Safon Canolradd/Uwch Gartholwg 1:00 – 2:00
19 Taith i oriel gelf Amgueddfa Caerdydd - 10:30
20 Tebot Piws – cyngerdd yng nghanolfan Gartholwg £9.50 7:30
21 Parti Porth – Parc Treftadaeth y Rhondda 11:00 – 4:00
26 Clwb darllen Pen-y-bont – Llyfrgell Coed Parc 10:00 – 11:00
27 Clwb darllen Treorci - Llyfrgell Treorci 11:00 – 12:00
27 Swper Nadolig Pen-y-bont – pryd o fwyd yng nghwmni ELERI SIÔN mewn partneriaeth â Menter Bro Ogwr – yn Cinnamon, Broadlands 7:30
27 Pantomeim Martyn Geraint - y Miwni, Pontypridd £8 oedolion. £6 plant. 7:00
28 HWYL I'R TEULU ANTHONY'STWFFIO S4C/HEINI S4C/Crefftau/llyfrau a llawer mwy i'r teulu. Mewn partneriaeth â Menter Gymraeg Merthyr
29 Cinio Sul – tafarn y Dic Penderyn Merthyr Tudful 1:00
30 Clwb darllen Hirawun – YMCA 2:00 - 3:00
30 Taith i'r sioe aeaf yn Llanelwedd – cyfle i brynu anrhegion Nadolig rhaid cael enwau erbyn 16/11/09 - 9:00 Pontypridd, 9:30 Sarn, adre tua 6:30 - Bws a mynediad £16 - Mewn partneriaeth â Menter Bro Ogwr.

Andrew Parker sydd â'r gofal am y Clwb Ramblo. Ym mis Medi, aethpwyd ar daith i Barc Gwledig Cwm Dâr. Gofidiwyd ychydig ynglŷn â sut byddai'r wyth ci'n ymdopi gyda'i gilydd. Barn rhai oedd bod y cŵn wedi ymateb i'r sialens llawer yn well, ar y cyfan, na'r oedolion!!!!! Does dim dyddiad penodol wedi ei drefnu ond bydd yr aelodau'n cerdded y tro nesaf ar y Lein Fach o'r Parc Treftadaeth i Bontypridd.

Llongyfarchiadau cynnes iawn i Chris a Colin Jones ar enedigaeth eu hwyres, Ffion, trydydd plentyn Nia a John. Dyma chwaer fach newydd sbon i Catrin a Daniel a nith hefyd i Rhiannon. Dymunir yn dda i'r teulu cyfan.

Hyfryd deall fod Nina Davies adref wedi cyfnod cymharol hir yn yr ysbyty. Mae Nicholas, ei mab, yn aros dros dro gyda Nina a chroesawn yntau yn ôl i'w gynefin. Cofiwn am Nicholas fel aelod ffyddlon, parod a gweithgar yn Ysgol Sul Salem pan oedd yn iau. Dymuniadau gorau posib i chi'ch dau.

Mae Seren, wyres fach Lynwen a Dafydd Pretty, wedi cael llawdriniaeth ddwys yn ddiweddar ac estynnwn ein cofion a'n dymuniadau gorau i'r teulu cyfan.

Yn ychwanegol, dymunwn yn dda i Glenys Williams sydd adref bellach wedi ei llawdriniaeth ac fe gofiwn yn gynnes at Lawrence Edge sy'n para i dderbyn triniaeth yn yr ysbyty.

Pob hwyl i Miss Jean Jones sy'n dathlu ei phen-blwydd ar y diwrnod olaf o Hydref. Dymunir y gorau i chwaer y diweddar Mrs. Peggy Jones, Adpar sydd wedi ymgartrefu yng Nghanolfan Gwauncelyn.

Yr Oedfaon:

Bydd Garin Jenkins, - cyn Gapten tîm rygbi Cymru, - yn arwain ein Hoedfa Deuluol fore Sul, y 6ed o Ragfyr am 11.0 y.b. Ein Gweinidog, fel arfer sydd â'r gofal am y Suliau eraill. Croesawn chi i gyd yn gynnes i ymuno â ni.

Y Gymdeithas:

Ddechrau Hydref mwynhawyd noson o dan ofal Beryl Davies. Bu Beryl yn hel atgofion gan gysylltu gwahanol gyfnodau'n ei bywyd â gwahanol gerddoriaeth. O ganlyniad, mwynhawyd gwrando ar gerddoriaeth gan Beethoven, Mozart, Handel, Dafydd Iwan ond, wrth gwrs, y tâp a ddaeth ag ergyd o hiraeth oedd yr un â lleisiau Ryan a Ronnie.

Tywysodd Gary Pugh ni, ganol y mis, ar daith i Missisippi lle treuliodd ef a'i deulu wyliau yn ddiweddar. Bu'n ail-adrodd rhai o'u profiadau trwy gyfrwng lluniau. Yr un a dynnodd tipyn o drafodaeth oedd eu hymweliad â Ffatri Jack Daniels. Gan fod yr ardal yn ddirwestol, ni chafwyd y cyfle i flasu'r cynnyrch. O ganlyniad aeth aelodau'r Gymdeithas trwy'r un profiad wrth wrando ar gyflwyniad Gary!!! Dwy noson gofiadwy a diolchir i Beryl a Gary.

www.mentercaerdydd.org
029 2068 9888

Swyddfa Newydd Menter Caerdydd
Rydym wedi symyd i….
42 Lambourne Crescent
Parc Busnes Caerdydd, Llanisien
Caerdydd. CF14 5GG
029 2068 9888

Agoriad Swyddfa
Diolch i bawb a ddaeth i'r Agoriad Swyddfa ddydd Mawrth 20fed Hydref. Agorwyd y Swyddfa gan Owen John Thomas a soniodd am yr angen i creu cymunedau Cymraeg eu hiaith yn y ddinas. Hefyd cafwyd cyfraniadau gan Mair Sims, Swyddog Addysg yn y Gymuned Cyngor Caerdydd a Sali Wyn Islwyn o Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Roedd y swyddfa dan ei sang. Cofiwch alw heibio – 42 Lambourne Cres, Llanishen.

Hefyd yr un noson cafwyd Cyfarfod Blynyddol i gloriannu llwyddiannau'r flwyddyn diwethaf ac i baratoi ar gyfer y dyfodol. Mae croeso i aelodau newydd ymuno â phwyllgor Menter Caerdydd.

Siaradwyr Gwadd Bore Coffi Dysgwyr
24ain Tachwedd – Beti George. 9fed Rhagfyr – Robin Gwyndaf. Croeso cynnes i bawb. 11.00am – 12.00pm. Tafarn Y Mochyn Du, Caerdydd

Cwis Tafarn y Mochyn Du
Fe fydd cwis nesaf y Fenter yn cael ei gynnal Nos Sul, Tachwedd 29ain, Tafarn Y Mochyn Du. 8pm. Croeso i bawb.

Llwyddiant Gwersi Oedolion Menter Caerdydd mewn partneriaieth a Chyngor Caerdydd
Braf yw gallu adrodd nôl am lwyddiant y prosiect peilot a gychwynwyd ar y 30ain Fedi rhwng Cyngor Caerdydd a'r Fenter. Cychwynnodd 12 o wahanol wersi i oedolion y ddinas drwy'r Gymraeg gan gynnwys gwersi Yoga, Ffotograffiaeth, Coginio, Dylunio Gwefan, Gitâr, Gwnïo, Sbaeneg, Dawns, Cymraeg i Ddysgwyr, Circuits a Thraddodiadau Lleol. Mae dros 130 o oedolion wedi cofrestru ar y cyrsiau wythnosol sydd yn cymryd lle gyda'r dydd yn Eglwys Ararat, Eglwys Newydd ac Ysgol Plasmawr yn y nos.

YSGOL GYNRADD CREIGIAU

(Lluniau tudalen 16)
Mae dathliadau mawr wedi bod yn mynd ymlaen yn yr ysgol yn ystod yr wythnosau diwethaf. Bu Dosbarthiadau 2 a 3 yn dathlu priodas yng nghapel Efail Isaf. Rhiannon Evans, Dosbarth 3, oedd y briodferch, a Jac Davies, Dosbarth 2 oedd y priodfab. Fe gymerwyd y gwasanaeth gan y Parchedig Eirian Rees. Roedd y plant yn bictiwr yn eu gwisgoedd crand. Ar ôl y seremoni, aeth pawb i gael gwledd yn Harry Ramsdens. Roedd yn sicr yn ddiwrnod i'w gofio!

Croesawu Leanne
Croeso mawr i Leanne Rochefort Shugar sydd wedi ymuno â'r Fenter yn ddiweddar fel Swyddog Gweithgareddau dros dro. Fe fydd Leanne yn gyfrifol am Glybiau wythnosol y Fenter a Penwythnos Teulu i Langrannog.

Diwrnod Teulu Cymru v Seland Newydd

Dydd Sadwrn, Tachwedd 7
Neuadd Jubilee
Canolfan Chwaraeon Gerddi Soffia
Drysau'n agor am 5pm
£3 i bawb.
Tocynnau ar gael
o swyddfa'r Fenter.
meleri@mentercaerdydd.org

Sgrin Fawr, Gemau, Wii, Celf a Chrefft,
Tatŵs a Paentio Ewinedd,
Bar, Bwyd a llawer mwy….

Penwythnos Teulu i Langrannog Mawrth 26 - 28, 2010

Penwythnos o hwyl i'r teulu cyfan!
Am fwy o wybodaeth a phrisau,
cysylltwch â
leanne@mentercaerdydd.org

Mae Dosbarth 1 wedi bod yn dathlu Diwali yn ddiweddar. Maent wedi bod yn coginio losin Indiaidd yn ogystal â gwneud lampau bach a chreu patrymau traddodiadol bendigedig. Diolch i Kiran a Rhoan am ddod a'u gwisgoedd lliwgar, bendigedig i'w dangos i ni hefyd.

Mae Dosbarth 4 yn astudio "Bwyd" y tymor yma a bu'r dosbarth ar ymweliad ag archfarchnad Morrisons yn y Bae. Cawsant groeso mawr yno. Yn ogystal â chael eu tywys o amgylch y cownteri pysgod, y bwyd ffres a'r popty a chael blasu ffrwythau egsotig, cawsant gyfle i goginio pitsas a "doughnuts". Fe ddaethant ag ambell un nôl i Mr Evans gael eu blasu! Roedd hynny wedi plesio'n arw!

Bu Dosbarth 5 ar daith addysgol hefyd. I Techniquest y buon nhw i ddysgu mwy am "Ddefnyddiau". Roedd yn daith fuddiol iawn a dysgodd y plant lawer am nwyon, solidau a hylifau. Bu Dosbarth 5 hefyd yn gyfrifol am Wasanaeth yr ysgol yn ddiweddar ar y thema "Ein Hamgylchedd". Roedd yn wasanaeth bendigedig gyda neges gref iddi. Ardderchog chi!

Bu plant Dosbarth 6 am wythnos yn Llangrannog yn ystod mis Medi a chael amser gwych! Yn ystod yr wythnos, fe gerddon nhw lawr i'r pentref ddwywaith gan fwynhau'r golygfeydd, y traeth a'r hufen iâ blasus. Fe fuon nhw hefyd ar ymweliad â'r Felin Wlân ger Llandysul i weld sut mae gwlân y ddafad yn cael ei ddefnyddio i greu defnydd. Roedd yn ddiddorol tu hwnt! Ar y siwrne nôl, fe alwon nhw yng Nghei Newydd i gael blasu'r hufen iâ yno hefyd! Ac, wrth gwrs, roedd holl weithgareddau'r gwersyll ar gael iddynt. Fe gyrhaeddodd llond bws o blant ac athrawon blinedig yn ôl i'r ysgol ar y prynhawn dydd Gwener!

Bu Dosbarth 6 yn ddigon ffodus hefyd o gael y cyfle i ymweld â chanolfan "Dŵr Cymru" ger Cilfynydd, a chael eu ffilmio yno ar gyfer rhaglen deledu "Wedi 3" a fydd yn cael ei darlledu ym mis Tachwedd. Roedd yn ddiwrnod addysgiadol iawn. Yno, mae "pentref" sydd wedi ei seilio ar bentref yn Uganda. Mae pedwar "tŷ" yno gydag ambell adnodd tlodaidd ond DIM DŴR. Bu'r plant yn uniaethu eu hunain â phlant bach Uganda sydd yn gorfod cerdded yn ddyddiol am ddwy awr i lawr i'r afon ac yna yn ôl er mwyn cael dŵr i'w yfed, i goginio ac i lanhau'r tŷ. Taith i lawr i'r afon Taf yn unig yr oedd gan blant Dosbarth 6 ond doedd hynny ddim yn rhwydd yn cario 5 litr o ddŵr yr un yn ôl i'r pentref! Diolch yn fawr i Mrs Brice, am ein gwahodd yno.

Mae'r ysgol wedi ei gwobrwyo am yr ail dro yn ddiweddar gyda'r "Faner Werdd". Diolch i bawb ond yn enwedig i Bwyllgor Eco'r ysgol a Mrs Hurford am eu holl waith caled a'u harweiniad.

Mae'r ysgol gyfan yn dymuno gwellhad buan iawn i Lara, Dosbarth 6 ar ôl ei llawdriniaeth yn Ysbyty Great Ormond Street. Mae pawb yn edrych ymlaen at dy weld yn ôl gyda ni.

PONTYPRIDD

Gohebydd Lleol:
Jayne Rees

Babis
Croeso i Magi, merch fach i Trudi Heaven a'i phartner Richard Martin. Mae'r ddau yn gyn-ddisgyblion Evan James a Rhydfelen.

Ganwyd merch i Medi Evans ac Owain Lloyd, gynt o Bantygraigwen. Mae Twm a Teifi wrth eu bodd a Ceri Olwen.

Llongyfarchiadau i Ffion a Chris ar enedigaeth mab bach, Tyrece. Brawd bach newydd i Daniel a ŵyr arall i Gwyn a Gwen Griffiths, Maesycoed.

Priodas
Dymuniadau gorau i Aneirin Karadog a'i wraig Laura Wyn. Priodwyd y ddau ar ddiwrnod hyfryd o Hydref yn Nhalybont, Bangor. Mae Aneirin yn wyneb cyfarwydd ar 'Wedi 7' ac yn fab i Christina a Derec Stockley, Coed y Cwm. Aethant ar eu mis mêl i Cuba ac maent wedi ymgartrefu ym Mhontyberem.

Llongyfarchiadau hefyd ar eu priodas i Gemma Jones ac Andrew Cloke, Cilfynydd- perchnogion siop '925 treats' yn y dre.

Ffarwel
Pob lwc i Julie Richards a'i merch fach, Crisiant, Hillside View, Graigwen yn eu cartref newydd yn ardal Aberystwyth. Mae Julie wedi mynd nôl i ddilyn cwrs yn y Brifysgol.

Merched y Wawr.
Mis diwethaf cawsom hwyl yng nghwmni'r gantores Miriam Bowen wrth iddi ddatgelu rhinweddau aloe vera - ac fe gawsom gân ganddi cyn diwedd y noson!

Nos Iau, Tachwedd 12fed am 7.30 yn y YMCA fe fydd gemwaith 'Tlws' yn arddangos ei nwyddau. Beth am ddod i gael syniadau am anrhegion Nadolig?
Croeso i aelodau newydd.

Newyddion Trist.
Ar ôl gwaeledd hir bu farw Glyn Watkins, Berw Road, Pontypridd. Estynnwn ein cydymdeimlad at ei wraig, Lil a'r merched Eifiona, Glynis a Siân. Roedd Glyn yn un o sylfaenwyr Clwb y Bont ac yn aelod ffyddlon .

Gwellhad Buan
Ar ôl cwymp buodd Nansi Valentine, Ynysybwl yn yr ysbyty yn Llantrisant. Bellach mae hi'n gwella yn Ysbyty Dewi Sant, Pontypridd. Mae aelodau Capel Noddfa, Ynysybwl yn dymuno adferiad buan iddi.

Rhaglenni Aur S4C
Yn ddiweddar gwelwyd wynebau cyfarwydd ar ein sgrin - wynebau ifanc ar hen raglenni - Carys Davies, Ynysybwl, Gerwyn Caffery , Graigwen ac Owain Morgan Jones, Caerdydd.

Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant

Cymdeithas Rhieni ac Athrawon
Mae'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon wedi bod wrthi'n gweithio'n frwd unwaith yn rhagor gyda llwyth o ddigwyddiadau ar eich cyfer. Cynhaliwyd Helfa Drysor ar Hydref 11eg, 2009 a bu'n llwyddiant mawr, a phawb, boed yn blant neu'n oedolion, yn mwynhau! Cymerodd 24 car rhan yn yr Helfa Drysor a buont yn crwydro yn chwilota am atebion ym Meisgyn, Llantrisant, Beddau, Creigiau ac Efail Isaf - bu rhai hyd yn oed ymhellach!! Fe ddathlodd pawb ar ddiwedd yr Helfa Drysor yn nhafarn y Barn. Teulu Rhys ac Isabel Thomas a fu'n fuddugol. Da iawn chi!!

Cynhaliwyd Disgo Calan Gaeaf ar Hydref 21ain yn Neuadd yr ysgol. Gan fod cymaint o blant yn yr ysgol bellach, bu'n noson hwyr gyda phedair sesiwn yn cael eu cynnal. Rhaid dweud - unwaith eto eleni bod y plant wedi gwneud ymdrech arbennig gyda'u gwisgoedd - gyda nifer o wrachod a sgerbydau yn ymweld â'r ysgol.

Rhai dyddiadau ar gyfer eich dyddiaduron: Noson Rasus yng nghlwb y Gweithwyr yn Llantrisant ar 20 Tachwedd.

Croeso
Fe ddaeth Osian Arran ar ei ymweliad cyntaf i Gymru mis diwethaf a chael croeso mawr gan y teulu a ffrindiau yn Bronwydd - cartref ei dad-cu a mam-gu yn Tyfica Road. Erbyn hyn maen nhw wedi dychwelyd i Ffrainc - Sara Mair, Robbie ac Osian - a Meinir a Brian hefyd!

Ymddeoliad
Dymuniadau gorau i Megan Davies, Whiterock Avenue. Buodd Megan yn gweithio am flynyddoedd fel cynorthwyydd yn Ysgol Evan James. Joiwch eich ymddeoliad!

Clwb y Bont
Mae pwyllgor newydd wrth y llyw ac maen nhw'n awyddus iawn i groesawu aelodau hen a newydd i alw yn y Clwb. Mewn llythyr at aelodau a chyn aelodau ym mis Medi fe bwysleisiodd Geraint Day nad oedd ffioedd ymaelodi wedi codi ers diwedd yr 80au. I adlewyrchu costau rhedeg mae'r pwyllgor wedi adolygu'r sefyllfa a phenderfynwyd codi'r ffi i £20/£10 (consesiwn). Dywedodd Geraint "Mae eich aelodaeth yn allweddol - ni all Glwb y Bont ffynnu a goroesi heb eich ymroddiad a'ch presenoldeb".

Ymysg y gweithgareddau mae noson o wyddbwyll ar nos Fercher a 'meic agored'. Mae aelodau o Gôr Meibion Pontypridd yn dal i gwrdd am ychydig o ganu anffurfiol ar nos Wener.

Mae dyddiadau ar gael ar gyfer partïon Nadolig- cysylltwch â'r clwb am fwy o wybodaeth.

Hwyl yn Llangrannog

Disgo Calan Gaeaf

Os hoffech ddechrau ar eich siopa Nadolig yn gynnar – mae'r Gymdeithas Rheini ac Athrawon wedi trefnu taith i Cheltenham ar Dachwedd 28ain. Croeso i bawb!

Croeso i'r staff newydd
Gyda ni nawr yn ail hanner y tymor, gobeithiwn fod ein staff newydd wedi ymgartrefu yn yr ysgol. Dechreuodd Rosanna Stenna, Tessa Ryan, Leah Khalil ac Amy Wride gyda ni ym mis Medi fel gweinyddesau meithrin. Hoffwn hefyd estyn croeso i Miss Helen Thomas i'r ysgol. Mae Helen Thomas wedi dechrau gweithio rhan amser gyda Miss Pugh yn nosbarth 2.

Brysiwch wella!
Fel y gwyddoch eisoes, nid yw Mrs Siân Davies wedi bod yn yr ysgol am rai misoedd yn dilyn salwch. Rydym wedi gweld eich eisiau yn fawr a hoffai pawb ddymuno gwellhad buan i chi!

Gwasanaeth Cynhaeaf.
Cynhaliwyd ein Gwasanaeth Cynhaeaf eleni ar Hydref 14eg . Y Parchedig Viv Parkinson a gynhaliodd y gwasanaeth ac roedd y plant wrth eu bodd yn gwrando ar ei stori. Braf oedd gweld Mr Parkinson eto yn yr ysgol, gobeithiwn drefnu trip i'r Eglwys yn fuan. Diolch i bawb a gyfrannodd duniau a phacedi bwyd. Bydd y rhain yn cael eu dosbarthu ymhlith pobl ddigartref Caerdydd. Hoffwn hefyd estyn diolch am eich cyfraniadau ariannol.

Gweithdy Cip
Daeth Manon Llwyd, swyddog o'r Urdd, i'r ysgol ar Hydref 15fed er mwyn cynnal gweithdy CIP. Cynhaliwyd y gweithdy ar gyfer disgyblion blwyddyn 5 a 6 lle gwrandawyd ar gyflwyniad o hanes y cylchgrawn a gorfod i'r plant wneud posau yn seiliedig ar hyn. Roedd pob un wedi mwynhau yn fawr!

Diwrnod Dinasyddiaeth Byd-eang
Fel rhan o waith yr ysgol ar ehangu a datblygu gwybodaeth disgyblion am ddiwylliannau eraill cynhaliwyd diwrnod arbennig yn yr ysgol (Dydd y Cenhedloedd unedig) ar Hydref 23ain. Dewiswyd gwlad gan bob athro / athrawes a dysgodd y plant am draddodiadau, gwisgoedd, baneri, bwyd, iaith a cherddoriaeth y gwledydd yn ystod y diwrnod arbennig hwn.

CREIGIAU

Gohebydd Lleol:
Nia Williams

Stori ramantus Mags!
Llongyfarchiadau mawr i Mags Wilkinson a Gwyn Bennett ar eu dyweddiad yn ddiweddar. Gwnaeth y ddau gyfarfod trwy eu cysylltiadau â Chôr Cantorion Creigiau – a thra ar daith i Laigueglia yn yr Eidal yn ystod yr hydref gwnaeth Gwyn ofyn i Mags ei briodi! Hyfryd ynte? Mae 'na ramant ar ôl yn y byd! Ac os y buoch ddigon ffodus i glywed Mags mewn cyfweliad â Daf Du ac Eleri Siôn ar Radio Cymru yn ddiweddar fe wyddoch jest pa mor hapus y mae Mags a Gwyn. Dymuniadau gorau i'r dyfodol eich dau!

Penodiadau newydd
Dymuniadau da i …
… Eleri (Knight) Rees gafodd ei phenodi yn Rheolwraig Ariannol i'r BBC yn genedlaethol yn ddiweddar. Golyga hyn bod Eleri bellach yn gweithio allan o'i swyddfa yn adeiladau'r BBC yng Nghaerdydd. Pob hapusrwydd i ti yn dy swydd newydd.
… Lyn Morgan, sydd newydd gychwyn ar ei swydd fel Pennaeth Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus ym mhrifysgol Aberystwyth. Lwc dda i ti, Lyn.

Rhedwyr o fri!
Ymunodd twr o redwyr brwd ac heini gyda'r miloedd gychwynnodd ras Hanner Marathon Caerdydd, Sul diwethaf. Yn eu plith roedd nythaid fach o Ben y bryn – Anna MacDonald ac Aled, Gin a'r gwr Ian – pob un yn rhedeg er mwyn codi arian at achosion da. Wnawn ni ddim datgelu pwy groesodd y llinell gyntaf – ond braf cofnodi bod pob un i mewn ymhell dan ddwy awr!

Un arall a serennodd dan faner Creigiau – a chyda cefnogaeth gref ei blantos a'i wraig falch, Alison, oedd Tim Cox. Llongyfarchiadau mawr Tim ar amser gwych - jest dros yr awr a hanner! Ardderchog!

Merched Y Wawr Tonysguboriau

Mae aelodau cangen Tonysguboriau yn falch i glywed bod Irene Evans mas o'r ysbyty ar ôl cyfnod hir. Irene yw un o bedair dysgwraig a sefydlodd y gangen ddeng mlynedd yn ôl. Hi oedd y Llywydd cyntaf am dair mlynedd. Dymuniadau gorau iddi.

Mis diwethaf oedd ein cyfarfod cyntaf eleni. Daeth Luned Jones o Oxfam i siarad â ni ar ôl i ni gasglu dros cant pum deg o "bras" ar au cyfer nhw.

Yn ein cyfarfod ym mis Hydref cawson ni ymweliad gan Dean Powell, hanesydd lleol a gyflwynodd lun diddorol o William Price. Mwynheuon ni yn fawr iawn a dysgon ni lawer am y dyn lliwgar a dawnus. Mis nesaf rydym yn edrych ymlaen at ymweliad Katy Davies o'r Gwasanaeth Tân.

Rydym yn cwrdd ar drydedd nos Fercher y mis yn y Pafiliwn, Talbot Green am 7.30y.h. a bydd croeso i aelodau newydd. Cysylltwch â Brenda Davies 01443 225549 neu Merle Roberts 01443 671875 neu Beti Thomas 01443 223197

Cornel y Plant

Colli 'sgidie
Mae Elin wedi colli ei hesgid chwith. Fedrwch chi ei helpu i ddod o hyd iddi?



Sut mae Twm yn Teithio?



Lliwiwch y Clown

Mae'r pysgotwr wedi dal pum pysgodyn. Enwch y pysgod. Lliwiwch y pengwin.



CROESAIR COL

Dyma gyfle arall i chi ennill Tocyn Llyfrau



Atebion i: Croesair Col
34, Pen Bryn Hendy, Yr Encil, Meisgyn, Pontyclun. CF72 8QX
erbyn 20 Tachwedd 2009

Ar Draws

7. Mynd i gysgu (4)
8. Esgeulustod (8)
9. Troellog (8)
10. Twll dan ddaear (4)
11. Dal i fyny, cefnogi (5)
13. Gwelleifio (7)
15. Llidus, llosg (7)
17. Fflat (5)
20. Defnydd sur (4)
21. Llymaid, dracht (8)
23. Cyflenwr (8)
24. Dim uchel (4)

I Lawr

1. Symud i wlad arall (4)
2. Gwair cwrs yn tyfu ar lan y môr (6)
3. Ansoddair (5)
4. Slanto (7)
5. Bod yn well na (6)
6. Talfyriad (8)
12. Y weithred o asio â than (8)
14. Trugaredd (7)
16. Llwyddo (6)
18. Eco (6)
19. Dal yn gryf (5)
22. Moel (4)

Atebion Hydref

T	I	C	I	A	N	■	A	M	G	A	N	T
■	■	O	■	D	■	C	■	A	■	M	■	■
A	■	N	■	A	■	A	■	L	■	O	■	A
C	L	O	E	R	■	N	■	W	E	D	Y	N
A	■	■	■	E	■	O	■	E	■	■	■	F
D	■	D	I	G	A	L	O	N	N	I	■	A
E	L	I	■	■	■	B	■	■	■	O	■	N
M	■	M	A	N	DD	A	R	L	U	N	■	T
A	■	■	■	O	■	R	■	I	■	■	■	A
I	R	G	I	G	■	TH	■	N	O	E	TH	I
DD	■	W	■	I	R	A	I	D	■	G	■	S
■	■	A	■	A	■	U	■	Y	■	Y	■	■
M	A	E	N	D	Y	■	Y	S	T	R	A	D

GILFACH GOCH

Gohebydd Lleol:
Betsi Griffiths

DATHLU HANNER CANRIF

Roedd nos Fercher Hydref 14 yn Noson Arbennig iawn i 'Guild Y Merched ' gan iddyn nhw drefnu noson i ddathlu eu pen-blwydd yn 50 oed.

Sefydlwyd y 'Guild' gan y diweddar Miss Katie Pritchard ac o fewn ychydig fisoedd roedd yn llawn ac roedd yn rhaid cael Rhestr Aros .

Mae'r Guild wedi cael rhaglen ddiddorol ac amrywiol ar hyd y blynyddoedd gyda siaradwyr am bob pwnc dan haul bron, corau a grwpiau yn diddori a nosweithiau pan fo'r aelodau yn diddori eu hunain. Yn ystod y chwe degau roedd cyfresi o ddarlithiau dan nawdd Efrydiau Allanol Prifysgol Caerdydd. Roedd y merched hefyd yn hoff iawn o fynd ar drip a chafwyd teithiau i fannau diddorol ac yn ddiweddarach penwythnosau i ffwrdd mewn Gwestai. Mae rhywbeth gwahanol i gael bob Nos Fercher a rhaid diolch i Mrs Mary Thomson yr ysgrifenyddes sy'n trefnu'r cyfan. Daeth llawer o gyn-aelodau - rhai sydd wedi symud o'r pentref i'r dathliadau.

Rhoddodd Mrs Betty Jones, yr Arweinydd, fraslun o hanes y Guild a siaradodd Mrs Ruth James hefyd. Cafwyd Llongyfarchiadau gan Mr Allan Warren Cadeirydd y Cyngor Cymunedol a chan Mrs Janice Gregory, Aelod y Cynulliad. Gwahoddodd Mrs Gregory y Guild i ymweld â'r Cynulliad. Cafwyd eitemau gan Gôr Cymunedol Merched Gilfach Goch. Yna gwahoddwyd pawb i'r Bwffe lle'r oedd mwy na digon o fwyd .

LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau i Jenna Dobbs a Simon Glen am eu hymdrechion i godi arian i 'Sefydliad y Bywyd Newydd' elusen sy'n codi arian i helpu plant anabl. Cynhalion nhw Noson yn y Bar Gwin a hefyd gwnaethant Blymio o'r Awyr yn Abertawe a chodi £1,500. Da iawn yn wir.

Theatr y Miwni, Pontypridd

Dydd Gwener
27/11/2009 am: 7.00
Martyn Geraint a'r Losin Hud [Hansel a Gretel]
Dydd Mercher, Tachwedd 25ain - 10am
Dydd Iau, Tachwedd 26ain - 10am + 1pm
Dydd Gwener, Tachwedd 27ain - 10am + 7pm
Pris = £6 plant £8 oedolion
Yn ogystal â'r sioeau i ysgolion arferol mae Martyn a'i gyfeillion - Ieuan Rhys, Geraint Hardy, Elin Llwyd a Victoria Pugh - yn bwriadu cynnal un perfformiad arbennig i Gymry Cymraeg RhonddaCynonTaf a'r cyffiniau ar Nos Wener, Tachwedd 27ain am 7.00pm.
Archebwch eich tocyn
Rhif ffon y Miwni: 01443 485934

Ysgol Gynradd Gymraeg Garth Olwg

Pêl-rwyd
Croeso cynnes i'r plant newydd sydd wedi ymuno â'r tîm-pêl rwyd eleni. Diolch i Ysgol Gynradd Llanilltud Faerdref sydd wedi bod yn ymarfer gyda ni.

Rygbi
Chwaraeodd carfan 7 bob ochr yr ysgol mewn cystadleuaeth yng nghaeau'r 'Milgi' yn y Ddraenen Wen. Chwaraeon nhw tair gem - colli dwy ac ennill un. Gan mai dyma'r tro cyntaf i'r bechgyn chwarae gemau 7 bob ochr roedd Mr Davies yn hapus iawn gyda'r cynnydd yn eu perfformiadau. Sgoriodd Dylan Hughes 4 cais, Morgan Wood 2 a James Real 1. Gofynnwyd hefyd i Dylan Hughes i fynychu sesiwn ymarfer ysgolion Pontypridd. Da iawn ti!

Gwasanaethau Dosbarth
Bu plant dosbarth Mrs Widgery yn brysur iawn yr wythnos hon yn perfformio eu gwasanaeth dosbarth ar y thema 'Priodasau'. Bu'r plant yn llefaru, yn dangos eu gwaith, yn canu ac yn perfformio cerddoriaeth ar y testun. Daeth llu o rieni i ymuno gyda ni yn yr ysgol i'w gwylio. Diolch am eich cefnogaeth. Roedd y plant wrth eu boddau!

Llangrannog
Fe aeth 66 o blant Blwyddyn 5 a 6, a 6 o staff Garth Olwg i Langrannog yn ddiweddar. Cafwyd amser da ac roedd pob un wedi ymddwyn yn wych. Roedd y plant wedi cael y cyfle i gymdeithasu gyda phlant o ysgolion eraill a blasu bwyd y gwersyll a siarad Cymraeg wrth iddynt gael hwyl ar y nifer o weithgareddau. Diolch i'r holl staff am eu gwaith caled. Edrychwn ymlaen yn fawr at y flwyddyn nesaf!

Dathliadau
Mae plant y Meithrin / Derbyn wedi bod yn brysur yn paratoi ar gyfer ein parti. Fel rhan o'r dathliad, mae'r plant wedi gwneud hetiau parti, gwahoddiadau a chardiau pen-blwydd. Yn ogystal, gwnaethon nhw jeli hefyd.

Dysgu am briodasau o bob math gwnaeth plant blynyddoedd 1 a 2. Diolchwn yn fawr iawn i'r Parch Peter Cutts am adael i ni gynnal dwy briodas yng Nghapel Salem ar ddydd Mawrth, Hydref 20fed. Roedd pawb yn edrych yn smart iawn – hyd yn oed yr athrawon! Diolch o galon i'r llu o rieni a ddaeth i'n cefnogi a'n helpu. Ar ôl y briodas, cawsom frecwast priodas, twmpath a pharti bythgofiadwy.

Gweithgareddau cerddoriaeth yr ysgol.
Sioe Joseff
Dechreuodd y paratoi ar gyfer perfformiad Nadolig yr Adran Iau o "Joseff a'i Gôt Amryliw" ym mis Medi. Wedi i ni fynd i weld perfformiad proffesiynol o'r sioe yn y Theatr Newydd yng Nghaerdydd, dechreuodd y clyweliadau ar gyfer y prif rannau. Roedd gan Mrs Bode, Mr Jones a Miss Adams waith anodd iawn yn penderfynu gan fod safon y plant mor uchel. Llongyfarchiadau i Morgan Wood a Jack Osborne fydd yn rhannu rhan Joseff, Cory Lendrum a James Warman yn rhannu rhan Pharo, a'r 3 llefarwr Ashley Pinkham, Branwen Roberts a Tegan Warman.

Gweithdy i'r côr
Ar Fedi'r 23ain, daeth Dylan Adams i gynnal gweithdy gyda chôr blynyddoedd 4, 5 a 6. Bu 56 ohonynt yn canu cymysgedd o ganeuon, mewn amrywiaeth o ieithoedd ac arddulliau gwahanol, gan gynnwys "Let it Be" y Beatles a "Sosban Fach". Mwynhaodd y plant ac roedd yn hyfryd eu gweld mor frwdfrydig yn canu.

Hanner Marathon
Da iawn i Miss MacDonald sydd eisoes wedi rhedeg hanner marathon er mwyn codi arian ar gyfer 'Downs Syndrom'. Diolch yn fawr i bawb am eu cyfraniadau hael!

Ysgol y Dolau

Rygbi
Ar ddydd Mercher, Medi 23ain aethom i glwb rygbi Llantrisant i chwarae 10 bob ochr yn erbyn Penygawsi, Pontyclun, Llantrisant a Llanhari. Gwnaethom yn dda iawn - yn ennill 3 gêm a cholli dim ond 1. Llongyfarchiadau i Dewi Cross a Matthew Wilmott am ennill lle yn nhîm ysgolion Pontypridd.

Ymweliad â choedwig Fforest Fawr
Aeth disgyblion blwyddyn 1 ar ymweliad â Fforest Fawr i ddysgu am hadau, dail a chyfnod yr Hydref. Mae'r goedwig yn gartref i gawr sy ddim ond yn dod allan yn y nos!! Ond nid oedd y plant yn ofnus. Dilynon nhw y llwybr trwy'r goedwig gan ddysgu am anifeiliaid lleol, gwahanol fathau o hadau a chasglu amrywiaeth o ddail. Ar hyd y daith gwelon nhw anifail anwes y cawr, sef pry copyn anferth, oriawr y cawr a hefyd ei gist llawn aur! Roedd Karen, gofalwr y goedwig, yn arweinydd gwych a mwynheuodd y plant y bore cyffrous.

Ymweliad â'r Eglwys
Mae cyfnod allweddol 1 yn dysgu am briodasau ar hyn o bryd fel rhan o'u hastudiaethau. Felly, aethon nhw am dro i eglwys Llanharan. Yna, rhoddodd y Parchedig Babs groeso mawr iddyn nhw a dysgodd y plant am yr offer ac arteffactau pwysig welon nhw yn yr eglwys. Caneuon nhw dwy gan gyda Mrs Price ar yr organ, a gwisgon nhw i fyny mewn dillad arbennig y ficer. Dysgon nhw am seremoni bwysig priodas a nawr maent yn edrych ymlaen at briodas eu hunain ym mis Tachwedd!

Wythnos Fathemateg
Roedd hi'n wythnos fathemateg dros Gymru o Hydref 5ed hyd 9fed. Y thema eleni oedd patrymau a mwy o batrymau. Mwynheuodd pob plentyn yn yr ysgol creu, chwilota neu ddysgu am batrymau amrywiol.

Trip i bentref Siopa Bicester
Mae'r GRhA wedi trefnu trip i bentref siopa Bicester (Designer Outlet) ddydd Sadwrn Tachwedd 14eg. Pris y trip yw £15 yr un ac mae tocynnau ar werth o'r ysgol.

Os hoffech fwy o fanylion am yr ysgol, ewch i ymweld â'n gwefan ar www.dolauprimary.org.co.uk.

Cerddi Evan James

Yr oedd Evan James, awdur geiriau Hen Wlad Fy Nhadau, y dethlir dau ganmlwyddiant ei eni eleni, yn ŵr arbennig iawn. Roedd yn fardd toreithiog a chynganeddwr rhwydd gyda diddordeb dwfn yn hanes ei wlad a materion ei ddydd. Bu'n dafarnwr a gwehydd ac roedd yn wneuthurwr telynau. Roedd yn eisteddfodwr brwd, yn weithgar yn yr Urdd Iforiaid ac yn aelod o Orsedd lliwgar Morgannwg a Gwent yn ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Mae'r cerddi, y Rhagymadrodd ysgolheigaidd, ynghyd â'r detholiad o alawon y lluniodd Evan James eiriau iddynt, yn rhoi darlun o'r hen Forgannwg a Gwent wledig, Gymraeg ei hiaith, lengar, diwylliedig a llawen cyn y Seisnigeiddio ddaeth yn sgil y Chwyldro Diwydiannol.

Yn 2006 cofnododd Gwyn Griffiths, a dreuliodd fel Evan James flynyddoedd o'i fywyd ym Mhontypridd, hanes cyfansoddi Hen Wlad Fy Nhadau. Tro Evan yw hi nawr, ei fywyd a'r holl waith oedd mewn perygl o fynd yn angof.

Cyhoeddwyd y llyfr gan Gwasg Carreg Gwalch pris £8.50 ac mae ar gael o Siop y Bont ac Amgueddfa Pontypridd.

Cylch Meithrin Llanhari

Rydym ym bwriadu agor Cylch Meithrin newydd yn Llanhari ar ôl y Nadolig. Gall plant o ddwy oed dderbyn profiadau newydd, cael cyfle i ddysg, cymdeithasu a datblygu mewn awyrgylch cyfrwng Cymraeg

Os am fwy o wybodaeth cysylltwch â Teleri Jones

YN EISIAU

Staff ar gyfer Cylchoedd Meithrin Creigiau, Llanhari a Brynna

Siarad Cymraeg yn hanfodol
Cymhwyster lefel 3 yn hanfodol ar gyfer Creigiau
I ddechrau ar ôl y Nadolig

Cysylltwch â:
Teleri Jones
Swyddog Datblygu Rhondda Taf
Mudiad Ysgolion Meithrin
07800 540316
teleri.jones@mym.co.uk

Pastai'r Bont



Llyfr Gwyn Griffths ar yr awdur enwog o Bontypridd

I ddathlu dau-ganmlwyddiant geni Evan James, awdur Hen Wlad Fy Nhadau, cyflwynwyd ei hanes ar ffurf Noson Lawen yn Amgueddfa Pontypridd ar nos Fercher, 21ain Hydref.

Coedwig Fforest Fawr

Plant y Derbyn yn arsylwi ar fyd natur

Ysgol Garth Olwg

Cyngor Ysgol

Y Cyngor Eco

Gweithdy'r côr gyda Dylan Adams

Priodas Blwyddyn 1 a 2

Ysgol y Dolau yn Eglwys Llanharan

JOB TRAC CYMRU
Arbenigwyr Recriwtio Siaradwyr Cymraeg
www.jobtraccymru.co.uk

YSGOL GYNRADD GYMRAEG EVAN JAMES

Ymddeoliad
Trist oedd ffarwelio â Mrs. Megan Davies – 'Anti Megan' i'r plant – wrth iddi ymddeol ar ôl cyfnod o ddwy flynedd ar bymtheg yn yr ysgol yn helpu'r disgyblion o'r ieuengaf i'r hynaf. Rhoddodd y prif ddisgyblion dusw o flodau iddi a chafodd anrhegion oddi wrth y staff ar ei diwrnod olaf. Mwynhewch yr oriau hamdden a bydd mwy o amser i ofalu am yr ardd 'nawr!

Teithiau ac ymweliadau
Aeth dosbarth 3 a 4 ar wibdaith i'r goedwig yn Sirhowy. 'Roedd y plant wrth eu boddau yn creu cartrefi i'r cysgaduron, creu 'persawr y goedwig' ac yn defnyddio eu synhwyrau i greu brithwaith yr hydref.

Aeth dosbarth 8 ar daith o gwmpas tref Pontypridd i baratoi ar gyfer gwaith yn ymwneud ag Evan James, dau gan mlynedd ers ei enedigaeth. Aeth Curadur yr Amgueddfa, Mr Brian Davies, â'r plant i bedwar man penodol: Plas Carmel, lle 'roedd y capel yr arferai Evan James fynd iddo; lleoliad ei gartref yn agos at lan yr afon Rhondda; lleoliad y ffatri wlân 'roedd e'n berchennog arno; a'r man lle cafodd ei gladdu ym Mharc Ynysangharad.

Aeth plant dosbarthiadau 11 a 12 i Barc Treftadaeth Y Rhondda i ymchwilio i fywydau plant yn y pyllau glo a daethant yn ôl i'r ysgol ar hyd llwybr yn agos at y rheilffordd.

Daeth Mr Gareth Blainey i'r ysgol i sgwrsio gyda dosbarthiadau 3, 4 ac 8 am ei waith fel gohebydd a sylwebydd pêl-droed gydag Adran Chwaraeon B.B.C. Cymru. Mwynheuodd y plant recordio eu lleisiau! Cafodd dosbarth 8 gyfle hefyd i holi Y Tad Michael Gable am ei waith yn y gymuned.

Mae dosbarthiadau 5, 6 a 7 wedi bod yn dysgu am y corff. Daeth meddyg a deintydd i'r ysgol ac fe gawsant weithdy gan "Techniquest" o'r enw 'Cyrff ac Esgyrn'. Mae'r plant yn arbenigwyr ar y corff erbyn hyn! Hefyd treuliodd dosbarthiadau 5, 6 a 7 wythnos yn astudio gŵyl Hindwaidd "Divali". Daeth un o'r rhieni i beintio patrymau 'rangoli' ar iard yr ysgol a chafodd y plant ddiwrnod o hwyl yn blasu bwydydd o India a gwisgo gwisgoedd traddodiadol India.

Daeth Mr Brian Davies i'r ysgol i siarad gyda dosbarthiadau 9 a 10 am Dân Mawr Llundain a dysgodd y plant lawer o ffeithiau newydd am beth achosodd y tân.

Ddydd Gwener, Medi'r 17eg, ddaeth Mr Brian Davies curadur Amgueddfa Pontypridd i ymweld â disgyblion Dosbarth 13. Roedd y plant wedi ei wahodd yno i'w helpu i ddatblygu eu sgiliau ymholi hanesyddol. Buont yn astudio nifer o arteffactau anhygoel o gyfnodau eang mewn hanes. Yn arbennig, roedd pawb wedi eu swyno gan gamera o gasgliad personol Mr Davies. Roedd y camera yn un o bump a gafodd ei greu ar gyfer yr ymweliad cyntaf i'r lleuad! Roedd yr ymweliad yn sbardun i bythefnos o waith hanes diddorol tu hwnt!

Michael Harvey yn cyflwyno stori

Ddydd Gwener, Medi'r 25ain, fe aeth disgyblion Blynyddoedd 5 a 6 i'r theatr yng Nghanolfan Gydol Oes Garth Olwg i wrando ar y storïwr adnabyddus Michael Harvey. Cawsom wledd o chwedlau o bedwar ban byd sydd wedi ysgogi a chyfoethogi ein gwaith ysgrifennu creadigol nôl yn ein dosbarthiadau. Diolch Mr Harvey, a diolch i Sam Chamberlain am drefnu'r digwyddiad.

Ddydd Iau, Hydref yr 22ain, aeth Dosbarth 13 ar drip i Amgueddfa Pontypridd i weld arddangosfa yn olrhain hanes y Cymry a aeth i Sbaen i ymladd yn y rhyfel cartref. Dysgom lawer am gefndir y rhyfel ac am fywydau personol y bobl a ddaeth yn ffoaduriaid i Gymry i ddianc rhag y dinistr. Hoffwn ddiolch i Mr Davies y curadur am y gwahoddiad ac i Steve, y cyflwynydd, am y croeso

Gwasanaethau
Yn ystod y tymor cynhaliwyd nifer o wasanaethau. Daeth Mr a Mrs. Rickard o elusen 'Pont' i'r ysgol i siarad am eu gwaith gyda'r elusen mewn un gwasanaeth ac yn ein gwasanaeth cynhaeaf casglwyd £250 tuag at 'Pont'. Diolch yn fawr i bawb gyfrannodd.

Diolch hefyd i Morgan a Taome gyflwynodd wasanaeth 'Divali'. 'Roedd y ddau yn edrych yn smart iawn yn eu dillad traddodiadol a dysgodd y plant lawer am arferion a hanes yr ŵyl.

Daeth yr hanesydd lleol Mr Gwyn Griffiths i'r gwasanaeth 'dathlu doniau cerddorol' i sôn am gyfansoddi 'Hen Wlad Fy Nhadau'.

Cyngor Ysgol
Mae cyngor yr ysgol wedi bod yn brysur iawn yn ystod yr wythnosau diwethaf. 'Rydym wedi trefnu 'rota' i aelodau'r cyngor werthu ffrwythau yn eu siop ffrwythau sy'n agored yn ystod amseroedd chwarae. Cynhaliwyd diwrnod gwisgo jîns i'r ysgol ar y Dydd Gwener cyn hanner tymor er mwyn codi arian i dalu am ddisgo a throellwr disgiau i'n parti Nadolig; a gwnaeth aelodau'r cyngor gyfarfod Donna Young, sy'n gyfrifol am ddarparu ciniawau ysgol ac am fwyta'n iach yn Rhondda Cynon Taf. Buom yn trafod ein syniadau ar gyfer bwyta'n iach yn yr ysgol.

Gwersi Sbaeneg – gan Dionne Farmer, Blwyddyn 6.
Mae disgyblion blynyddoedd 5 a 6 wedi dechrau mynychu clwb Sbaeneg yn ystod yr awr ginio ar Ddydd Mawrth. 'Rydym wedi dysgu sut i gyfarch ein gilydd a chyflwyno ein hunain. 'Rydym yn gallu dweud ein hoedran a'n rhifau ffôn a hyd yn oed yn gallu chwarae "bingo" yn Sbaeneg. Felly y tro nesaf i chi gwrdd â ni beth am ddweud "Hola"!

Chwaraeon – Rygbi - gan Iwan, Jac S, Gruff a Jordan.
Aeth Iwan, Jac S, Gruff (capt.), Jordan, Dafydd, Carl, Dylan, Bailey, Matthew, Nye a Jack R a'n hyfforddwr Mr. Spanzwick o dîm rygbi'r ysgol i chwarae mewn twrnament 7 bob ochr yn Abercynon. 'Roedd tua 20 tîm yno i gystadlu am y cwpan a'r timau gyrhaeddodd y 4 olaf oedd Carntown, Ysgol Heol Y Celyn, Ysgol Evan James ac Ysgol Llwyncrwn. Yn gyntaf chwaraeon ni Llwyncrwn a'u curo nhw o 4 cais i 1 cyn colli o 3 chais i 1 yn erbyn Carntown; ond wedyn chwaraeon ni Heol Y Celyn a'u curo nhw o 3 chais i 1 i ennill y cwpan. Os bydd angen help ar dîm rygbi Cymru eleni mae croeso iddyn nhw ffonio'r ysgol!

Chwaraeon – Sêr Gwib ("Rising Stars")
Daeth cwmni chwaraeon "Sêr Gwib" i'r ysgol i gynnal gweithdy gyda holl blant yr adran Iau. 'Roedd gweithgareddau fel llamllafargamu, criced, pêl-fasged, rygbi a phêl-droed; ac erbyn hyn mae'r cwmni yn dod i'r ysgol bob Nos Fawrth a Nos Fercher i hyrwyddo byw'n iach a phwysigrwydd ffitrwydd. Er mwyn hybu brwdfrydedd y plant mae nifer o glybiau allgyrsiol yn cael eu cynnal :
Nos Lun – pêl-droed a phêl-rwyd
Nos Fawrth – chwaraeon cymysg
Nos Fercher – rygbi a llamllafargamu.

Mae'r plant yn awyddus i weld ambell aelod o staff yn llamllafarganu!

Termau Newid Hinsawdd yn Gymraeg?

Mae newid hinsawdd yn dipyn o bwnc llosg ar hyn o bryd fel y gwyddoch. Er mwyn ymateb i'r galw cynyddol am dermau Cymraeg yn y maes bu Uned Safoni Termau a Chyfieithu Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn cydweithio â Gwasanaeth Cyfieithu Llywodraeth y Cynulliad ac arbenigwyr pwnc ar brosiect safoni termau. Roedd hyn hefyd yn rhan o gyfraniad y Bwrdd at raglen waith Gweithgor Iaith Gymraeg y Sector Amgylcheddol.

Mae modd gweld y termau newid hinsawdd ar ein gwefan o ddilyn y ddolen hon: www.gwefan.org/hinsawdd.

Mae'r prosiect termau newid hinsawdd yn un o nifer o brosiectau safoni termau mewn meysydd arbenigol y mae'r Bwrdd wedi ymgymryd â nhw dros y blynyddoedd. Cyhoeddir y termau wedi'u safoni yn y Gronfa Genedlaethol o Dermau ar ei wefan: www.gwefan.org/termau .

Os ydych yn dymuno cynnig termau eraill sydd angen eu safoni yn y maes hwn cysylltwch ag Eleri James - (eleri.james@byig-wlb.org.uk).

YSGOL GYFUN GARTH OLWG

(Lluniau tudalen 16)

Dylunio Dillad i Mosgito!
Dydd Mawrth, 21 Medi, aethom ni i gymryd rhan yn y sioe deledu i bobl ifanc - Mosgito - ar S4C. Roedd rhaid i ni addasu hen ddillad i greu edrychiad newydd a modern. Cawsom ni ginio yn stiwdios y BBC, ac yna gwario gweddill y dydd yn cystomeiddio hen ddillad! Roedd yn brofiad gwych!

Mwynheais i'r diwrnod yn fawr, dysgais eich bod yn gallu creu edrychiad cwbl wahanol allan o hen ddilledyn - a hynny mewn cwpwl o oriau yn unig! Bydd yn sicr yn brofiad defnyddiol ar gyfer y dyfodol. Wnes i gymryd hen grys du plaen ac yna creu top newydd allan o ddeunydd du tryloyw a'i ychwanegu iddo. Gwnaeth Sasha troi ffrog ddu i mewn i sgert ac ychwanegu botymau aur arno fe. Gwnaeth Joell wnïo blodyn ar hen dop du ac yna gwnïo cluniau arno i'w addurno.

Cawsom ni ein gwallt a cholur wedi ei wneud hefyd er mwyn bod o flaen y camera! Yna, aeth y rhaglen allan yn fyw am 5.30 yr hwyr.

'Roedd yn brofiad gwych i'r disgyblion,' meddai eu hathrawes, Mrs Rhiannon Robinson. 'Cafodd y disgyblion y cyfle hwn oherwydd roedd eu gwaith yn cael ei arddangos yn Nerbynfa'r ysgol. Gwelwyd ansawdd y gwaith gan rhai aelodau'r Cwmni – a dyna nhw ar y rhaglen!'.

Alex Warman, Blwyddyn 11

Taith yr Adran Gelf
Ar y 23 Medi aeth yr Adran Gelf i ymweld â Bae Caerdydd gyda Ms. Rees, Ms. Jones a Ms. Edwards. Roedd yn gyfle i ni fel disgyblion gael ysbrydoliaeth am thema'r tymor sef, " Y Ddinas".

Aethom ni mewn grwpiau gyda'r athrawon a chanolbwyntio ar Ganolfan y Mileniwm, Adeilad y Cynulliad a cherfluniau diddorol o gwmpas y Bae. Cawsom hwyl yn ogystal â chyfleoedd addysgiadol i arlunio ac ymchwilio.

Diolch i'r Adran am y cyfle.

Catrin Ebbsworth, Blwyddyn 11.

Dechrau ar Daith y Fagloriaeth !!
Ar y 14 Medi, 2009 cafwyd cyffro mawr ym Mhrifysgol Caerdydd pan ddaeth myfyrwyr Bl 12 ysgolion Garth Olwg, Gwynllyw a Chwm Rhymni ynghyd ar gyfer sesiwn anwytho ar Fagloriaeth Cymru. Yr adeg honno o'r bore roedd y llygaid yn drwm ond y sgwrsio'n uchel yn y caffi cyn dechrau - ond deffrodd pawb wrth weld y coffi'n llifo a'r bisgedi'n rhad ac am ddim! Dyma adroddiad Huw Blainey o'r dydd.

Aethom ni, Blwyddyn 12 i Brifysgol Caerdydd i fynychu nifer o sesiynau am y byd gwaith a gofynion Bagloriaeth Cymru gan fod yr holl gwrs cystal â bod yn estron i ni'r disgyblion tan hynny!

Cawsom ddarlith ar y cwrs yn gyffredinol i ddechrau gan Stuart Jones o'r Cynulliad. Trafododd ef brif elfennau'r cwrs Cymru, Ewrop a'r Byd i roi blas i ni ar beth oedd ein gofynion ar gyfer yr asesiadau. Siaradodd Carol Bryan - Jones, hanesydd ac athrawes yn ein hysgol, am Gymry dramor a'r ffordd mae'r Cymry wedi lledaenu enw'r wlad ar draws y cefndiroedd. Y trydydd person siaradodd â ni oedd Elaine Edwards ar ran Amnesty Rhyngwladol ac adroddodd hi stori am fachgen yr helpon nhw fel mudiad.

Un siaradwr arall oedd Gareth Blainey o Adran y Chwaraeon y BBC er na siaradodd ef â ni. Trafododd ef natur ei waith a dangos gwahanol ddarnau o offer a ddefnyddir yn ei swydd bob dydd.

Roedd yn ddiwrnod buddiol iawn i ni gyd gan ein bod wedi cael cipolwg ar y Brifysgol a phrofiad o ddarlithoedd yn ogystal â chael blas ar byd gwaith. Dechreuad da oedd hwn i'r cwrs Bagloriaeth Gymreig.

Huw Blainey, Blwyddyn 12.

Llongyfarchiadau !
Llongyfarchiadau i Cai Morgan a Lewys Mann y ddau o Flwyddyn 11 am gael eu dewis i chware Pêl-foli dros Gymru o dan 17. Dyma lun ohonynt yn eu crysau.

Llongyfarchiadau hefyd i Thomas James, Blwyddyn 9 sydd wedi cael ei ddewis i ymarfer gyda charfan pêl droed "Cardiff City" dan 16. Da iawn ti.

…….ac i Amber Jones a Jessica Stacey y ddwy o Flwyddyn 12 am gael eu dewis i dîm pêl-rwyd y Sir. Da iawn chi!

……..hefyd i Nia Barnes, Katie Richards a Rhianydd Thomas y tair o Flwyddyn 9 sydd wedi cael eu dewis i gynrychioli tîm Taf Elai dan 14. Pob hwyl ferched!

Ymweliad Miss Kathryn Morgan a'r Ffindir Medi 2009
Ar ôl chware pêl-droed am bymtheg mlynedd dros Gymru mae Miss Morgan wedi troi at yr her o hyfforddi. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf mae wedi bod yn gweithio tuag at ennill cymhwyster Trwydded Hyfforddi UEFA "A", ac o ganlyniad i hyn wedi derbyn y fraint o ymuno â thîm hyfforddi Merched Cymru fel hyfforddwraig i'r tîm cyntaf.

Ar sail hyn i gyd fe gafodd wahoddiad gan Ymddiriedolaeth Pêl-droed Cymru (FAW Trust) i'w cynrychioli fel llysgennad i ymweld â Helsinki er mwyn cael golwg ar eu llwyddiant sylweddol o safbwynt pêl-droed merched.

Gwaith Maes yr Adran Ddaearyddiaeth
Ar y 7fed o Hydref aethom ar daith gwaith maes Daearyddiaeth ar y cyd gydag Ysgol Gyfun Llanhari i'r afon Ilston, Gwyr. Roedd yn ddiwrnod hwylus iawn gyda'r disgyblion yn cyd-weithio'n wych i gasglu data ar gyfer eu harholiadau Uwch Gyfrannol allanol ym mis Ionawr. Y brif ddamcaniaeth oedd edrych ar effaith rheolaeth yr afon ar yr arllwysiad. Cawsom dywydd ffafriol iawn o ystyried adeg y flwyddyn, gyda digon o ddŵr yn yr afon ar gyfer dehongli'r data'n ddigonol.

Braf iawn oedd cael y cyfle i gyd gynllunio ac arwain taith maes arall hynod lwyddiannus gydag Adran Ddaearyddiaeth Ysgol Gyfun Llanhari. Edrychwn ymlaen yn arw at barhau i gydweithio'n frwd dros y blynyddoedd nesaf.

Sali Mali'n 40 oed!

Mae yna wraig boblogaidd sy'n fytholwyrdd ac ifanc yn 40 oed! Pe bawn i'n dweud ei bod yn hoff iawn o wisgo ffrog oren a bod ei gwallt du mewn bynsen ar ei phen, mae'n siwr y byddech wedi dyfalu ei henw erbyn hyn. Sali Mali, un o gymeriadau mwyaf hoffus Cymru, sy'n dathlu'r deugain eleni. Yn 1969 aeth yr awdures a'r addysgwraig Mary Vaughan Jones ati i lunio cyfres ddarllen wreiddiol i blant Cymru ac ers hynny mae yna filoedd o'i llyfrau wedi eu darllen gan genedlaethau o blant. I lawer un, dyma'r llyfr darllen cyntaf go iawn yn yr ysgol. I nodi achlysur ei phen blwydd arbennig, mae Gwasg Gomer wedi cyhoeddi dau lyfr bwrdd dwyieithog newydd sef *Nadolig Sali Mali* a *Gwyliau Sali Mali*.

Cyflwynir Sali Mali a'i ffrindiau i gynulleidfa ifanc iawn yn y llyfrau gair a llabed hyn. Bydd bysedd bach wrth eu bodd yn troi'r dalennau trwchus ac yn dysgu geiriau am y Nadolig a gwyliau. Clywir y cwestiwn 'Ydych chi'n barod ar gyfer y Nadolig?' yn aml yn ystod tymor yr ŵyl a'r cwestiwn ar glawr *Nadolig Sali Mali* yw 'Ydi popeth yn barod ar gyfer Nadolig Sali Mali? O dudalen i dudalen enwir y pethau a gysylltir â'r Nadolig ac o gyrraedd y dudalen olaf gofynnir cwestiwn arall sef 'Ydi Sali Mali wedi anghofio rhywbeth?' O godi'r llabed, fe welir ffrindiau Sali - Jac Do, Jac y Jwc a Tomos Caradog. Yr un patrwm ddilynir yn y llyfr *Gwyliau Sali Mali.*

Er ein bod yn cysylltu'r cymeriadau Sali Mali gyda Jac y Jwc bellach, mae'n werth nodi nad oedd Sali Mali wedi cyfarfod Jac y Jwc cyn i Siân Teifi eu cyflwyno i'w gilydd yn y cyfresi teledu poblogaidd a blaengar ar S4C yn y nawdegau hwyr. Cyn hynny byw ar wahân yn llyfrau Cyfres Dau Dau oedd Jac y Jwc tra oedd Sali Mali yn byw mewn un llyfr clawr oren yng Nghyfres Darllen Stori. Ond wedi i'r ddau gyfarfod a chyflwyno eu cyfeillion i'w gilydd dyna wawrio ar fyd na welwyd mo'i fath yng Nghymru. Erbyn hyn mae rhaglenni Sali Mali a chyfres 'Pentre Bach' ar y teledu yn ffefrynnau gan blant Cymru a Chanolfan Pentre Bach yng Ngheredigion yn atyniad gwych i blant (ac oedolion) fwynhau byd Sali Mali i'r eithaf.

Pen blwydd hapus iawn Sali Mali – a hir oes!

Nadolig Sali Mali
Gwyliau Sali Mali
Gwasg Gomer £3.99 yr un

Lluniau Ysgol Gyfun Garth Olwg

Cai Morgan a Lewys Mann, Blwyddyn 11.



Miss Morgan ar y pen gyda gweddill y cynrychiolwyr yn y Ffindir

Criw taith yr Adran Gelf yn gweithio ar eu llyfrau braslunio.

Plant Ysgol Creigiau yn cario dŵr o'r afon

Ysgol Creigiau yn Llangrannog

Canolfan Dysgu Gydol Oes
Gartholwg
Lifelong Learning Centre
Tachwedd 20fed
Tebot Piws
7.30pm
£9.50
& HuwM
Miri Meithrin
10.00am - 11.30am
1.00pm - 2.30pm
Rhagfyr 7fed a'r 8fed
RALA RWDINS
£2
Mae angen blaen-gofrestru.
Rhagfyr y 17eg
Noson y Dysgwyr
6.30 PM
Am fanylion ffoniwch 01443 219589